| | |
|---|---|
| *Teitl:*<br>***Penderfyniad - Asesiad o Effaith ar gynigion Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ar ddarparu gwasanaethau llysoedd yng Nghymru a Lloegr***<br>*Rhif AE:*<br>*Adran neu asiantaeth arweiniol:*<br>***Y Weinyddiaeth Cyfiawnder***<br>*Adrannau neu asiantaethau eraill:* | **Asesiad o Effaith (AE)**<br>**Dyddiad:** 05-02-2016<br>**Cam:** Terfynol<br>**Ffynhonnell ymyrraeth:** Domestic<br>**Math o gam gweithredu:** Arall<br>**Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:** |
| ***Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau*** | ***Barn RPC:*** |

| **Cost yr Opsiwn a ffafrir (neu'r un sydd fwyaf tebygol)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Gwerth Presennol Net** | **Gwerth Presennol Net y Busnes** | **Cost net i fusnes bob blwyddyn** (cost net flynyddolgyfwerth i fusnes ar sail prisiau 2009) | **O fewn cwmpas y dull Un i Mewn, Un Allan?** | **Y mesur yn cael ei ystyried yn** |
| £169m | Amh. | Amh. | Nac ydi | Amh |

**Beth yw'r broblem dan sylw? Pam mae angen i'r llywodraeth ymyrryd?**

Bellach, nid yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) yn bodloni gofynion strategol y sefydliad. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ac Asesiad o Effaith ar 16 Gorffennaf 2015 i gael barn am sut y gallai GLlTEM fynd i'r afael â maint presennol ystad GLlTEM a'r gost gysylltiedig. Roedd yr ymgynghoriad yn cwmpasu'r llysoedd ynadon, y llysoedd sirol a llysoedd y goron ynghyd â chanolfannau gwrandawiadau tribiwnlysoedd. Roedd yn argymell cael gwared â chapasiti dros ben a chau adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio i'w llawn potensial, sydd mewn cyflwr gwael neu sydd â chyfleusterau annigonol. Roedd y cynigion hefyd yn anelu at wella'r defnydd o adeiladau drwy symud i safleoedd â chyfleusterau gwell, sy'n gydnaws â gofynion gweithredol. Byddai hyn hefyd yn creu arbedion parhaus drwy leihau costau rhedeg a chodi incwm drwy gael gwared â'r ystad sy'n ddiangen. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 08 Hydref 2015. Mae'r Asesiad Effaith diwygiedig hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad a wnaed ar y cynigion ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

**Beth yw'r amcanion polisi a'r effeithiau arfaethedig?**

Amcan y bwriad i gau yw sicrhau ystâd sy'n bodloni egwyddorion diwygio ystadau GLlTEM, a nodir yn y ddogfen ymgynghori. Bydd y cynnig hwn yn lleihau'r capasiti sy'n ormod ac yn sicrhau bod yr ystâd yn gydnaws â'r gofynion gweithredu. Mae'n ceisio gwella'r gwasanaeth i gwsmeriaid drwy gyfeirio gwaith at lysoedd a thribiwnlysoedd sydd â chyfleusterau gwell, a sicrhau bod pawb yn cael mynediad at gyfiawnder. Bydd arbedion yn cael eu creu drwy leihau'r costau rhedeg a bydd hyn yn galluogi GLlTEM i barhau i ddarparu gwasanaeth o safon a lleihau'r gwariant yr un pryd. Caiff refeniw ei greu drwy gael gwared â rhannau o'r ystad llysoedd athribiwnlysoedd.

**Pa opsiynau polisi sydd wedi cael eu hystyried, gan gynnwys unrhyw ffyrdd eraill yn lle rheoleiddio? Rhowch gyfiawnhad dros yr opsiwn a ffafrir (mae rhagor o fanylion yn y Sylfaen Dystiolaeth)**

Mae'r opsiynau canlynol wedi cael eu hystyried:
Opsiwn 0: Gwneud dim byd (achos sylfaenol)
Opsiwn 1: Cau safleoedd yn unol ag egwyddorion GLlTEM, gan ystyried cyfyngiadau gweithredol a chyfyngiadau mewn perthynas â mynediad at gyfiawnder yn ogystal ag ystyriaethau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgyngori
Opsiwn 1 yw'r opsiwn a ffafrir gan ei fod yn cyd-fynd yn well â gweledigaeth strategol ystad GLlTEM ac yn creu arbedion ariannol i'r adran. Yn dilyn ymgyngoriadau o fewn GLlTEM a oedd yn cynnwys tystiolaeth strategol a dadansoddol, cytunwyd bod y cynigion i gau yn weithredol hyfyw. Mae'r cynigion hefyd yn ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd i GLlTEM dros y cyfnod ymgynghori.

**A fydd y polisi yn cael ei adolygu?** Ni fydd yn cael ei adolygu. **Os yw'n berthnasol, pennwch ddyddiad yr adolygiad:** Mis/Blwyddyn

| A fydd ei weithredu'n mynd y tu hwnt i ofynion sylfaenol yr UE? | | | Bydd/ Na fydd/ Amh | | |
|---|---|---|---|---|---|
| A yw unrhyw rai o'r sefydliadau hyn o fewn eu gwmpas? Os nad yw sefydliadau Micro wedi'u heithrio, nodwch y rheswm yn y Sylfaen Dystiolaeth. | **Micro**<br>Oes/ Nac oes | **< 20**<br>Oes/ Nac oes | **Bach**<br>Oes/ Nac oes | **Canolig**<br>Oes/ Nac oes | **Mawr**<br>Oes/ Nac oes |
| Beth yw'r newid $CO_2$ cyfatebol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr? (cyfwerth â miliwn tunnell o $CO_2$) | | | **Wedi'i fasnachu:** | **Heb ei fasnachu:** | |

*Rwyf wedi darllen yr Asesiad o Effaith, ac rwyf wedi fy modloni ei fod, ac ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, yn rhoi barn resymol am gostau, buddion ac effaith debygol yr opsiynau pennaf.*

Llofnod y SELECT SIGNATORY cyfrifol: ............................................ Dyddiad: ............................................

## Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth — Opsiwn Polisi 1

**Disgrifiad:**

**ASESIAD ECONOMAIDD LLAWN**

| *Blwyddyn Sylfaen y Prisiau* | *Blwyddyn Sylfaen y Gwerth* | *Cyfnod mewn blynyddoedd* | *Budd Net (Gwerth Presennol (PV)) (£m)* | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | *Isel Dewisol* | *Uchel Dewisol* | *Amcangyfrif Gorau:* **£169** |

| **COSTAU (£m)** | **Cyfanswm Pris Trosiannol** (Pris Cyson) | Blynyddoedd | **Cyfartaledd Blynyddol** (heb gynnwys pris Trosiannol) (Pris Cyson) | **Cyfanswm Cost** (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| **Isel** | - | 3 | - | **-** |
| **Uchel** | - | | - | **-** |
| **Amcangyfrif Gorau** | £62m | | £1m | **£70m** |

**Disgrifiad a graddfa'r costau allweddol â gwerth ariannol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Byddai GLITEM yn wynebu costau o ganlyniad i unrhyw waith galluogi, gwelliannau TGCh, gwaith angenrheidiol i baratoi llysoedd sy'n cael eu cau ar gyfer eu gwaredu, costau datgomisiynu TG, costau torri prydles, costau prosiect, costau staff sy'n gadael a throsglwyddo gwaith (e.e. costau cludo) o'r llysoedd sydd ar y rhestr cau. Bydd y llysoedd sy'n aros ar agor yn wynebu costau ychwanegol bob blwyddyn wrth gymryd llwyth gwaith y llysoedd sy'n cau Mae cyfanswm y costau trosiannol wedi cynyddu £11m o'i gymharu ag Asesiad Effaith yr ymgynghoriad.

**Costau allweddol eraill heb werth ariannol yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Mae'n bosib y bydd defnyddwyr llysoedd a staff, y farnwriaeth, partneriaid yn y system cyfiawnder troseddol (y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu) a phartneriaid cyfiawnder sifil a thribiwnlysoedd sydd mewn ardaloedd gwledig yn wynebu costau uwch gan y byddant yn gorfod teithio ymhellach i'r llysoedd.

| **BUDDION (£m)** | **Cyfanswm Pris Trosiannol** (Pris Cyson) | Blynyddoedd | **Cyfartaledd Blynyddol** (heb gynnwys pris Trosiannol) (Pris Cyson) | **Cyfanswm y Buddion** (Gwerth Presennol) |
|---|---|---|---|---|
| **Isel** | - | 3 | - | **-** |
| **Uchel** | - | | - | **-** |
| **Amcangyfrif Gorau** | £41m | | £28m | **£240m** |

**Disgrifiad a graddfa'r buddion allweddol â gwerth ariannol yn ôl y 'prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Mae llai o adeiladau'n golygu y bydd GLITEM yn elwa o gael llai o gostau rhedeg yn y dyfodol mewn rhent, costau staff, costau TG, cyfleustodau, gwasanaethau eiddo a chynnal a chadw, a gwariant arall mewn swyddfeydd. Bydd GLITEM hefyd yn cael refeniw o werthu'r ystâd. Mae cyfanswm y buddion dros 10 mlynedd wedi gostwng £22m o'i gymharu ag Asesiad Effaith yr ymgynghoriad. Y rheswm dros £7m ohono yw diweddaru costau gweithredu o ddata 2013/14 i ddata 2014/15.

**Buddion allweddol eraill heb werth ariannol yn ôl 'y prif grwpiau yr effeithir arnynt'**

Sicrheir effeithlonrwydd drwy restru gan fod y gwaith yn digwydd mewn llai o lysoedd. Mae'n bosib hefyd y bydd defnyddwyr yr ystâd sy'n weddill , fel dioddefwyr a thystion, yn gwneud llai o deithiau oherwydd bod llai o adeiladau llysoedd.

| **Tybiaethau/sensitifrwydd/risgiau allweddol** | **Cyfradd Ddisgownt (%)** | 3.5% |
|---|---|---|

Rhagdybir y bydd cyfran o'r costau gweithredu a'r costau staff yn cael ei harbed yn y safleoedd a fydd yn cau. Tybir y bydd y llwyth gwaith yn aros yn sefydlog yn ystod y cyfnod gwerthuso. Mae gwerth y gwaith galluogi i'r dyfodol yn seiliedig ar yr arolygiadau costau diweddaraf. Mae gwerth y derbyniadau cyfalaf a geir wrth werthu adeiladau yn seiliedig ar brisiadau tir a gall newid ar adeg eu gwaredu.

**ASESIAD BUSNES (Opsiwn 1)**

| **Effaith uniongyrchol ar y busnes (cyfwerth â blwyddyn) £m:** | | | **O fewn cwmpas OIOO?** | **Y mesur yn cael ei ystyried yn** |
|---|---|---|---|---|
| **Costau:** | **Buddion:** | **Net:** | Ydy/ Nac ydy | IN/OUT/Zero net cost |

# Y Sylfaen Dystiolaeth

## Amcan y polisi a chwmpas y prosiect

### Cyflwyniad

1. Mae’r Asesiad o Effaith diwygiedig hwn yn ystyried y cynigion ar gyfer cau llysoedd a chanolfannau gwrandawiadau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd ei Mawrhydi (GLlTEM) yng Nghymru a Lloegr fel y nodwyd ym mhapur ymateb y Weinyddiaeth Gyfiawnder i’r ymgynghoriad. Nod y polisi hwn yn gwella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd ystad GLlTEM drwy sicrhau ei fod yn fwy cydnaws ag anghenion gweithredol.

2. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghori ac Asesiad Effaith ar 16 Gorffennaf 2015 i gael barn ar sut y gallai GLlTEM fynd i'r afael â maint presennol ystad GLlTEM a'r costau cysylltiedig . Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 08 Hydref 2015. Mae'r Asesiad o Effaith diwygiedig hwn yn asesu'r penderfyniad ar gau safleoedd a oedd wedi’i gynnwys yn yr ymateb i’r ymgynghoriad i adlewyrchu’r newidiadau i’r adeiladau a fydd yn cau yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd dros gyfnod yr ymgynghoriad. Mae hefyd yn rhoi sylw i rai materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, megis yr effaith ar gostau teithio defnyddwyr y llysoedd.

### Y Rhesymeg

3. Yn 2010, cynhaliodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) adolygiad o ystad y llysoedd o dan y Rhaglen Adolygu Ystadau'r Llysoedd (CERP) . Arweiniodd yr adolygiad at ymgynghoriad ym mis Mehefin 2010 ac ymateb gan y llywodraeth ym mis Rhagfyr 2010 a gadarnhaodd y byddai 141 o lysoedd yn cau mewn rhaglen raddol rhwng mis Ebrill 2011 a mis Medi 2014. Roedd CERP yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion ystadau cenedlaethol, gyda’r bwriad o wella’r ffordd y defnyddir llysoedd a lleihau costau gweithredu. Roedd y llysoedd a oedd yn mynd i gau o dan y rhaglen CERP wedi’u cyfyngu i lysoedd ynadon a llysoedd sirol.

4. Ar ôl i Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi a'r Gwasanaeth Tribiwnlysoedd uno ym mis Ebrill 2011 i greu GLlTEM, cafwyd ystad fwy, gyda llawer gormod o gapasiti diangen. Felly, byddai canolbwyntio’r gwaith mewn nifer cyfun o adeiladau mawr yn galluogi GLlTEM i ddefnyddio’r ystad yn fwy deallus a hyblyg, gan arwain at arbedion sylweddol drwy ostyngiad yn y costau rhedeg cyffredinol a llawer llai o bennau. Mae’r Prosiect Diwygio’r Ystadau yn ceisio gwella’r defnydd a wneir o'r ystad a mynd i’r afael â phroblem capasiti dros ben heb ddibynnu ar newidiadau sylweddol mewn TG na phrosesau busnes.

### Amcanion Polisi

5. Bydd y prosiect yn bodloni amcanion ar draws tri maes: gwerth am arian; mynediad at gyfiawnder; ac effeithlonrwydd hirdymor.

- Sicrheir *gwerth am arian* i’r trethdalwr drwy’r ffyrdd canlynol:

  a) Lleihau cost rhedeg ystad GLlTEM ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;

  b) Sicrhau y ceir cymaint o gyfalaf ag y bo modd o warediadau, er mwyn gallu ailfuddsoddi yn yr ystad.

- Bydd *mynediad at gyfiawnder* yn cael ei gynnal drwy sicrhau bod unrhyw llys sy’n cael ei ystyried ar gyfer cau o fewn pellter rhesymol drwy drafnidiaeth gyhoeddus i lys sy’n cael ei gadw ar agor.

- Bydd effeithlonrwydd yn yr hirdymor yn cael ei sicrhau drwy'r ffyrdd canlynol:

  a) Gwrando ar yr un faint o achosion yn yr ystad a fydd wedi’i had-drefnu;

  b) Cynnal capasiti o fewn ystadau;

  c) Cadw adeiladau mwy y gellir eu huwchraddio’n rhwydd.

### Cwmpas

6. Bydd ystad gwrandawiadau GLlTEM yn cael ei hystyried yn ei chyfanrwydd ar gyfer y prosiect hwn. Yn benodol, bydd cwmpas y prosiect yn cynnwys:

- Ceisio gwella'r modd y defnyddir yr ystad drwy ad-drefnu’r ystad bresennol:
- Ystyried pob awdurdodaeth;
- Ystyried pob rhanbarth.

7. Ni fydd y canlynol yn rhan o'r cwmpas:

- Cau adeiladau y gellid eu defnyddio fel canolfannau gwrandawiadau mawr aml-awdurdodaeth mewn unrhyw fodel gweithredol yn y dyfodol a ddatblygir gan GLlTEM;
- Cau adeiladau a fyddai'n dibynnu ar bolisi neu newidiadau gweithdrefnol sylweddol iawn i bolisi gweithredu neu weithdrefnau llysoedd;
- Adeiladau gweinyddol yn ystad GLlTEM, ac eithrio lle y gallent gael staff neu swyddogaethau gweinyddol o ganolfannau gwrandawiadau sy'n cael eu cau fel rhan o'r prosiect;
- Ni ddylid ystyried gwelliannau o ran prosesau busnes na uwchraddio systemau TG, ac eithrio ar gyfer gweithredu prosesau safonol presennol a systemau TG mewn lleoliadau gwahanol.

8. Cyfeirir at bob lleoliad sy'n cynnal gwrandawiadau (llysoedd a thribiwnlysoedd) fel “adeiladau” yn y ddogfen hon drwyddi draw. Mae unrhyw leoliad sy'n cefnogi gwaith y safleoedd gwrandawiadau hyn (e.e. staff gweinyddol) wedi cael eu heithrio ac nid ydynt wedi cael eu cynnwys yng nghyfanswm yr “adeiladau”.

**Egwyddorion GLlTEM**

9. Rhaid i benderfyniadau a wneir fel rhan o waith Diwygio’r Ystad fod yn gyson â’r egwyddorion canlynol:

*Sicrhau Gwerth am Arian*

- Lleihau cost rhedeg yr ystad ar hyn o bryd ac yn y dyfodol;
- Sicrhau cymaint o dderbyniadau cyfalaf ag y bo modd o werthu’r ystad nad oes mo’i hangen er mwyn ei ail-fuddsoddi yn GLlTEM.

*Sicrhau Mynediad at Gyfiawnder*

- Sicrhau mynediad parhaus at gyfiawnder wrth asesu effaith rhaglen gau bosib ar ddefnyddwyr proffesiynol a lleyg y llysoedd a'r tribiwnlysoedd, gan ystyried amseroedd teithiau i ddefnyddwyr, yrher o sicrhau mynediad mewn ardaloedd gwledig ac unrhyw gamau lliniaru, gan gynnwys systemau TGCh modern a system restru fwy hyblyg, pan fydd teithiau gryn dipyn yn hirach.
- Ystyried anghenion defnyddwyr ac yn benodol, dioddefwyr, tystion a'r bobl hynny sy'n fregus;
- Cefnogi gofynion asiantaethau eraill fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaethau Cymdeithasol, Yr Heddlu a Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS).

*Sicrhau effeithlonrwydd yn y tymor hwy*

- Dibynnu llai ar adeiladau sydd â chyfleusterau gwael a chael gwared ag adeiladau'r ystad sy'n anodd ac yn ddrud i'w gwella neu eu huwchraddio;
- Symud at ystad sydd ag adeiladau mwy sy’n gallu hwyluso’r gwaith o restru busnes llysoedd a thribiwnlysoedd yn fwy effeithlon a hyblyg ond yn rhoi mwy o sicrwydd i ddefnyddwyr hefyd o ran pan fydd eu hachosion yn cael eu gwrando;
- Gwella'r gallu i ddefnyddio'r ystad yn hyblyg ar draws yr awdurdodaeth droseddol ac ar wahân ar draws yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd;
- Symud tuag at ystad sy'n darparu canolfannau gwrandawiadau penodol, gan geisio cyfleoedd i ganoli swyddogaethau swyddfa gefn, lle mae modd iddynt gael eu cyflawni yn y ffordd fwyaf effeithlon;
- Sicrhau bod yr ystad yn cael ei defnyddio’n fwy effeithlon drwy geisio gwella effeithlonrwydd y system gyfan, manteisio ar ddulliau cyfathrebu modern (wi-fi a chyswllt fideo) a mabwysiadu prosesau busnes i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;

- Sicrhau bod yr ystad yn cael ei defnyddio'n effeithlon lle bynnag y bo modd ni waeth beth yw'r ffiniau gweinyddol presennol.

**Grwpiau yr effeithir arnynt**

10. Y grwpiau y gallai'r cynigion hyn effeithio arnynt yw adrannau'r llywodraeth, defnyddwyr llysoedd a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder, fel y nodir isod:

- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i chyrff hyd braich, gan gynnwys:
  - GLITEM;
  - Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) gan gynnwys Gwasanaeth Carchardai a Hebrwng Carcharorion (PECS);
  - Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol;
  - Y Cyngor Dedfrydu;
  - Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS).
- Y Farnwriaeth (gan gynnwys yr Ynadaeth).
- Cymdeithas Clercod yr Ynadon
- Adrannau eraill y llywodraeth, gan gynnwys:
  - Y Swyddfa Gartref;
  - Trysorlys EM.
- Defnyddwyr eraill y llys, gan gynnwys:
  - Bargyfreithwyr/Cyfreithwyr/Sefydliad Siartredig y Gweithredwyr Cyfreithiol;
  - Dioddefwyr troseddau;
  - Tystion i droseddau;
  - Troseddwyr.
- Sefydliadau eraill, gan gynnwys:
  - Gwasanaeth Erlyn y Goron;
  - Heddluoedd;
  - Bwrdd Parôl;
  - Awdurdodau Lleol.
- Aelodau'r cyhoedd sy'n cymryd rhan mewn achosion llys a thribiwnlys.
- Busnesau lleol.

**Y sail resymegol economaidd dros ymyrryd**

11. **Mae'r sail resymegol economaidd gonfensiynol dros gael y Llywodraeth i ymyrryd yn seiliedig ar ddadleuon ynghylch effeithlonrwydd neu degwch. Bydd y Llywodraeth yn ymyrryd os tybir bod methiannau o ran y ffordd y mae marchnad yn gweithredu ("methiannau yn y farchnad") neu i gywiro gwyriadau sefydliadol presennol ("methiannau'r llywodraeth").** Bydd y Llywodraeth yn ymyrryd hefyd am resymau tegwch .
12. Nod y cynnig hwn i newid y gwasanaethau llysoedd yng Nghymru a Lloegr yw hybu'r amcan o sicrhau effeithlonrwydd. Mae gormod o gapasiti ac nid yw rhai llysoedd yn cael eudefnyddio ddigon, sy'n golygu bod yr hyn a ddarperir gan y gwasanaethau llysoedd yn aneffeithlon. Nid yw hyn yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r trethdalwr. Byddai lleihau maint ystad GLITEM yn mynd i'r afael â'r aneffeithlonrwydd hwn, ac yn sicrhau bod y capasiti ar gael yn unol â'r galw.

### Egwyddorion sy'n sail i ddadansoddiad cost a budd

13. Mae'r Asesiad o Effaith yn nodi, cyn belled ag y bo modd, yr effeithiau â gwerth ariannol a heb werth ariannol, a'r nod yw deall beth fydd yr effaith net ar gymdeithas os newidir ystad GLlTEM. Mae'r Asesiad o Effaith hwn yn seiliedig ar y costau a buddion hysbys.
14. Mae dadansoddiad o gost a budd yn yr Asesiad o Effaith hwn yn cael ei ddehongli'n eang hefyd, i gynnwys costau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol, gyda sylw teg i'r rheini sydd heb werth ariannol.
15. Cymru a Lloegr yw cwmpas daearyddol yr Asesiad o Effaith hwn.
16. Ar gyfer nifer fach o feysydd, nid oes data digonol i fesur y costau a'r buddion. Yn yr achosion hyn, rydym wedi nodi'r hyn a gredwn i fod yn gostau a buddion heb fod wedi llunio amcangyfrif meintiol.

## Opsiynau polisi

### Opsiwn polisi 0: Gwneud dim byd

17. Mae'r opsiwn “gwneud dim byd” yn nodi'r rhagdybiaethau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud ynghylch yr effaith yn y dyfodol pe na fyddai camau yn cael eu cymryd ynghylch darparu gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr.
18. Ar hyn o bryd, mae GLlTEM yn gweithredu mewn 460 o adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd ar draws Cymru a Lloegr. Disgrifir ystad bresennol GLlTEM yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Ystad bresennol GLlTEM**

| | Llys y Goron | Ynadon | Sirol | Tribiwnlys | Cyfun | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llundain | 9 | 24 | 15 | 11 | 1 | 60 |
| Canolbarth Lloegr | 6 | 35 | 7 | 9 | 12 | 69 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 4 | 31 | 12 | 15 | 8 | 70 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 5 | 29 | 10 | 9 | 10 | 63 |
| De-ddwyrain Lloegr | 11 | 39 | 22 | 13 | 12 | 97 |
| De-orllewin Lloegr | 2 | 28 | 5 | 8 | 15 | 58 |
| Cymru | 4 | 18 | 10 | 5 | 6 | 43 |
| Cyfanswm | 41 | 204 | 81 | 70 | 64 | 460 |

Nid yw'n cynnwys adeiladau tribiwnlysoedd yng yr Alban a Grŵp y Goruchaf Lys

### Opsiwn polisi 1: Ad-drefnu'r ystad mewn cytundeb ag egwyddorion cytunedig GLlTEM

19. O dan yr opsiwn hwn, byddai ystad GLlTEM yn cael ei had-drefnu yn unol â'r egwyddorion a sefydlwyd gan Fwrdd GLlTEM fel y'u nodwyd yn y papur ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys cynigion sy'n ymwneud â125 o adeiladau.
20. Roedd yr ymgynghoriad gwreiddiol yn cynnwys cynigion i gau 91 o adeiladau. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am 31 achos o gyfuno, nad oedd yn rhaid ymgynghori yn eu cylch, yn ogystal â thri adeilad sydd wedi bod yn destun ymgynghori yn y gorffennol ac sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer eu cau.
21. O'r 125 adeilad, roedd 9 yn golygu newid swyddogaeth (newid awdurdodaeth yn llwyr neu lys cyfun yn cau swyddogaeth llys sirol) ac yn Ne-orllewin Lloegr dim ond un o Lysoedd YnadonGogledd Avon neu lysoedd Sirol ac Ynadon Caerfaddon fyddai'n cau. Felly byddai uchafswm o 115 adeilad na fyddai eu hangen bellach. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol wedi cytuno ar y rhestr hon, gan ymgorffori ystyriaethau strategol a thystiolaeth ddadansoddol.
22. Yn dilyn adborth o'r broses ymgynghori, mae'r penderfyniad wedi'i wneud i ddiwygio'r cynnig ar gyfer y 125 adeilad i 11 newid mewn swyddogaeth a 4 safle'n cael eu cadw, gan gynnwys Llys Ynadon a Llys Sirol Caerfaddon. Felly does dim angen 110 adeilad bellach. Mae'r rhestr o'r

adeiladau y cynigir eu bod yn cau neu'n cyfuno a'r safleoedd i'w cadw ar gael yn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad.

23. Mae Tabl 2 yn dangos y rhestr arfaethedig o adeiladau nad oes eu hangen ar GLITEM mwyach, wedi'u trefnu yn ôl ystad y math o wrandawiad a rhanbarth.

**Tabl 2: Adeiladau arfaethedig nad oes eu hangen mwyach ar GLITEM o dan Opsiwn 1**

| | Llys y Goron | Ynadon | Sirol | Tribiwnlys | Cyfun | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llundain | 0 | 5 | 3 | 1 | 0 | 9 |
| Canolbarth Lloegr | 0 | 11 | 4 | 1 | 1 | 17 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 0 | 5 | 5 | 6 | 0 | 16 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 0 | 8 | 5 | 0 | 0 | 13 |
| De-ddwyrain Lloegr | 1 | 11 | 5 | 5 | 2 | 24 |
| De-orllewin Lloegr | 0 | 7 | 3 | 5 | 2 | 17 |
| Cymru | 1 | 6 | 4 | 1 | 2 | 14 |
| Cyfanswm | 2 | 53 | 29 | 19 | 7 | 110 |

24. O'r adeiladau a restrwyd yng Nghymru yn nhabl 2, ymgynghorwyd ynghylch 3 yn flaenorol, ac fe'u cymeradwywyd ar gyfer eu cau; Llys Ynadon y Fenni, Llys Ynadon Caerffili a Llys Sirol y Rhyl

25. Mae'r un ar ddeg newid mewn swyddogaeth i'w cael yn y rhanbarthau canlynol: Llundain (1), Canolbarth Lloegr (1), Gogledd-orllewin Lloegr (5), De-ddwyrain Lloegr (2), De-orllewin Lloegr (1) a Chymru (1).

## Costau a buddion yr opsiynau

26. Mae'r costau a'r buddion canlynol wedi cael eu hystyried fel effeithiau posibl o dan Opsiwn 1.

## Costau

### Costau trosiannol (â gwerth ariannol)

27. Ar gyfer GLITEM, bydd costau trosiannol yn codi yn sgil:

- *Gwaith galluogi*: **Mae hyn yn cynnwys ail-drefnu ystafelloedd gwrandawiadau mewn adeiladau sy'n derbyn gwaith ychwanegol, dylunio'r gwaith galluogi a gwasanaethau TG i gynyddu capasiti neu i ddarparu cyfleusterau ar gyfer delio â'r cynnydd disgwyliedig yn y llwyth gwaith.**
- *Costau gwaredu*: Costau sy'n gysylltiedig â gwaredu adeiladau rhydd-ddaliadol, fel talu am wasanaethau cyfreithiol, prisiadau, hysbysebu a ffioedd cwmni gwerthu eiddo.
- *Dirywiadau*: Costau dychwelyd safle prydles i'w gyflwr gwreiddiol, drwy atgyweirio neu addasu.
- *Costau Adleoli*: Costau sy'n gysylltiedig ag adleoli gwaith, staff ac offer yn ogystal â chludo dogfennau rhwng adeiladau.
- *Taliadau gadael prydles*: Cyfanswm cost gadael cytundebau prydlesu
- *Datgomisiynu TG:* Y costau sy'n gysylltiedig â symud, cludo a gosod TG
- *Costau'r prosiect*: Cost economaidd staff ac adnoddau penodol ar gyfer cyflawni'r prosiect hwn o ddiwygio'r ystad.

### Costau trosiannol (heb werth ariannol)

28. Ar gyfer GLITEM, bydd costau un-tro heb werth ariannol yn codi yn sgil:

- *Costau ymgyfarwyddo ac ymwybyddiaeth*: Bydd costau ymgyfarwyddo ac ymwybyddiaeth yn codi i ddefnyddwyr llysoedd yn gysylltiedig â lle mae'r llys agosaf iddynt. Yn yr un modd, gall gymryd amser i staff ymgartrefu yn eu gweithle newydd, yn enwedig gan y gall rhai arferion gwaith fod ychydig yn wahanol mewn gwahanol lysoedd. Er nodi'r pwynt hwn, rhagwelir mai effaith fach iawn a gaiff hyn.
- *Dileu swyddi*: Bydd rhai aelodau staff yn cael eu trosglwyddo fel mater o flaenoriaeth fel ffordd o osgoi'r drefn dileu swydd. Os na fydd modd symud staff o fewn y Weinyddiaeth Gyfiawnder neu'r Gwasanaeth Sifil ehangach, gellir defnyddio cynlluniau ymadael yn gynnar gwirfoddol hefyd fel ffordd arall o osgoi'r drefn dileu swydd. Os na fydd modd symud staff mae'n bosibl hefyd y bydd swyddi'n cael eu dileu ar sail wirfoddol neu orfodol. Rhagdybir y bydd taliadau dileu swydd yn sicrhau y gwneir iawn â staff am y cyfnod disgwyliedig y byddant yn ddi-waith cyn dod o hyd i swydd newydd. Felly, nid oes gwerth ariannol i'r costau hyn yn y gwerthusiad economaidd.

**Costau parhaus (â gwerth ariannol)**

*Llwyth gwaith GLlTEM*

29. Bydd costau parhaus â gwerth ariannol yn codi oherwydd costau ychwanegol sy'n ymwneud â llwyth gwaith mewn adeiladau sy'n derbyn gwaith, fel argraffu a phostio.

**Costau parhaus (heb werth ariannol)**

*Costau amser teithio i ddefnyddwyr ac asiantaethau eraill*

30. Ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r llysoedd ynadon a'r llysoedd sirol yn achlysurol - dioddefwyr, tystion, rhai aelodau o'r cyhoedd a chwmnïau masnachol - gall costau teithiau gynyddu o ganlyniad i'r rhaglen cau llysoedd os yw llysoedd eraill 'sy'n derbyn' ymhellach i ffwrdd o'r llysoedd sy'n cau. I rai – cyfreithwyr, bargyfreithwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu - mae'n bosibl y byddai mynd ati'n well i gynllunio gweithgareddau'r llys yn strategol mewn llai o ganolfannau llys sy'n fwy o ran maint yn gwneud iawn am y costau hyn ac yn golygu y byddai rhai defnyddwyr yn teithio llai o weithiau i'r llysoedd.
31. Cyfeiriodd ymatebion i'r ymgynghoriad at ddiffyg costau a gwerth ariannol iddynt ar gyfer effeithiau teithio. Cafodd model amser teithio ei ddatblygu i ddadansoddi effaith y cynigion hyn ar amser teithio (gweler yr adran "Effeithiau ar amser teithio" isod). Ond, nid ydym wedi gallu darparu effeithiau costau teithio ar gyfer pob llys a chanolfan wrandawiadau sydd wedi'u nodi yn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad - mae'r effaith gyffredinol ar deithio i lysoedd a chanolfannau gwrandawiadau yn ansicr gan fod rhai defnyddwyr yn teithio'n amlach nag eraill i lysoedd a chanolfannau gwrandawiadau (e.e. barnwyr o'i gymharu â thystion) a thrwy gyfuno'r ystad i lai o lysoedd a chanolfannau gwrandawiadau, efallai na fydd angen i rai defnyddwyr rheolaidd deithio mor aml (e.e. yr heddlu a gwasanaethau hebrwng carcharorion). Ond, mae amcangyfrif o'r effeithiau ar y daith gyffredin ar gyfer pob rhanbarth wedi'i amcangyfrif gan ddefnyddio rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar ddata'r Adran Drafnidiaeth ar gyfer costau cyfartalog teithiau car a chludiant cyhoeddus. Mae'r effeithiau heb werth ariannol ar asiantaethau eraill i'w gweld isod.

*Gwasanaeth Carchardai a Hebrwng Carcharorion (PECS)*

32. Mae gwaith PECS yn cynnwys symud carcharorion rhwng dalfeydd yr heddlu, llysoedd a charchardai. Yn yr un modd â defnyddwyr eraill y llysoedd, bydd achosion y rhai hynny ar remand yn awr yn cael eu rhestru mewn adeiladau llys eraill. Os bydd yr adeilad llys newydd hwn gryn dipyn i ffwrdd o'r carchar lle y cedwir y sawl sydd ar remand, gall hyn olygu cost i Wasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a thaith hirach i'r sawl sydd ar remand sy'n cael ei gludo.
33. Er y bydd angen cludo nifer o bobl sydd ar remand ychydig ymhellach i adeiladau llysoedd, gwneir iawn am hyn drwy i eraill gael eu hebrwng i adeiladau llysoedd agosach sydd wedi gweld newid yn eu swyddogaeth er mwyn iddynt yn awr gael gwrando eu hachosion. **Gall hyn olygu y bydd angen llai o deithiau ar y cyfan, oherwydd yr ystad wrandawiadau gyfun a fydd ar gael yn sgil y rhaglen ddiwygio hon.**

*Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol*

34. Yn ogystal â newidiadau i hyd amseroedd teithio, bydd hyn yn effeithio ar y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol lle maent yn rhannu swyddfeydd gyda GLlTEM. Lle y bo'n bosib, mae modd rhoi staff

y gwasanaeth prawf yn adeiladau eraill GLlTEM (a fydd yn cynnwys costau symud staff, dogfennau a TG) er mewn rhai achosion, mae'n bosib y bydd angen i staff y gwasanaeth prawf ddod o hyd i rywle arall. **Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn ceisio lleihau'r effeithiau negyddol ar staff y Gwasanaeth PrawfCenedlaethol.**

35. Os oes bwriad i gau llys sydd â chyfleusterau cysylltu â throseddwyr, byddai angen dod o hyd i gyfleuster arall, naill ai yn y llys sy'n derbyn neu mewn lleoliad gerllaw. Gallai hyn arwain at gostau ychwanegol. Mae'n bosib y bydd staff y gwasanaeth prawf nad ydynt yn gweithio yn adeiladau GLlTEM y bwriedir eu cau, ond sy'n teithio i'r adeiladau hyn, yn gwneud llai o deithiau oherwydd bod ystad canolfannau gwrandawiadau GLlTEM wedi'i chyfuno. Ond, mewn rhai achosion, efallai y bydd yn rhaid i staff y gwasanaeth prawf deithio ymhellach os yw'r llys arall sy'n derbyn gryn dipyn ymhellach i ffwrdd.

36. Mae GLlTEM wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ddeall effeithiau'r newidiadau hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae NOMS wedi ymateb i'r ymgynghoriad gan nodi bod angen i GLlTEM ddeall dyletswyddau deddfwriaethol ac amgylchedd gweithredu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol mewn llys.

*Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS)*

37. Mae'n bosib y bydd teithiau staff CAFCASS i'r llys yn hirach a fydd yn arwain at fwy o gostau cysylltiedig. Mae'n bosib y gellir gwneud iawn am hyn drwy amseroedd teithio byrrach os yw llysoedd mewn ardaloedd mwy pellennig yn cau a'r gwaith yn cael ei drosglwyddo i lysoedd sy'n nes at leoliadau CAFCASS.

38. Mae CAFCASS wedi ymateb i'r ymgynghoriad, gan nodi mai eu barn gyffredinol hwy yw na ddylai unrhyw gau fod yn rhwystr i ymgysylltiad plant a theuluoedd mewn achosion teulu.

*Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu*

39. Mae'n bosib y bydd teithiau staff Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Heddlu i'r llys yn hirach a fydd yn arwain at fwy o gostau cysylltiedig. Mae'n bosib y gellir gwneud iawn am y costau hyn drwy amseroedd teithio byrrach os yw llysoedd mewn ardaloedd mwy pellennig yn cau a'r gwaith yn cael ei drosglwyddo i lysoedd sy'n nes at leoliadau Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Heddlu.

40. At ei gilydd, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cefnogi'r cynigion yn yr ymgynghoriad, sy'n realistig ac yn amserol ym marn y gwasanaeth.

*Busnes Lleol*

41. Roedd rhai ymatebion yn yr ymgynghoriad yn codi pryderon am nad oedd yr effeithiau ar yr economi leol wedi'u cynnwys yn Asesiad Effaith yr ymgynghoriad. Rydym yn cydnabod nad oes effeithiau lleol manwl yn ein dadansoddiad o hyd, oherwydd y cymhlethdod wrth gynnal dadansoddiad economaidd manwl o'r effaith ar ardaloedd lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n bosib y bydd busnesau sy'n gweithio mewn ardaloedd gerllaw llysoedd sy'n cau yn gweld cwymp mewn gweithgaredd, ond mae'n bosib y gwneir iawn am hyn drwy gynnydd mewngweithgaredd ar gyfer busnesau sydd gerllaw adeiladau sy'n derbyn y gwaith achos o safleoedd sy'n cau.

42. Bydd costau barnwrol yn cael eu trosglwyddo hefyd (gan gynnwys yr ynadaeth) o adeiladau sy'n cau i adeiladau sy'n derbyn, ond nid ydym yn pennu'r gost hwn gan ei fod yn cyfateb i drosglwyddo cost.

## Buddion

### Buddion trosiannol (â gwerth ariannol)

43. Ar gyfer GLlTEM mae'r buddion trosiannol yn cynnwys:

- *Refeniw o werthu eiddo*: Amcangyfrifwyd mai gwerth gwaredu pob adeilad rhydd-ddaliadol sydd wedi'i restru ar gyfer ei gau yw £41 miliwn o dan yr opsiwn a ffafrir. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar arolygon o werthoedd tir a gynhaliwyd yn 2014/15. Dim ond pan fydd y llysoedd hyn wedi cael eu gwerthu y byddwn yn gwybod beth yw'r gwerth alldro wrth eu gwaredu yn y pen draw, a bydd hyn yn dibynnu ar yr amodau macroeconomaidd ac amodau'r farchnad ar y pryd.

### Buddion Parhaus (â gwerth ariannol)

44. Ar gyfer GLITEM mae'r buddion parhaus yn cynnwys:

- *Arbedion o gostau gweithredu is:* Fel cyfleustodau, rhenti, gwasanaethau eiddo, cynnal a chadw,gwariant swyddfa ac eitemau tebyg. Amcangyfrifir mai £21 miliwn y flwyddyn fydd cyfanswm net yr arbedion ar gyfer yr opsiwn a ffafrir. Ar gyfer yr asesiad o effaith hwn, nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys TAW. Gweler Tabl 3 am ragor o fanylion.
- *Arbedion ar gostau staff:* Oherwydd llai o ddyblygu rolau staff llysoedd yn yr adeiladau sy'nderbyn, amcangyfrifir mai £5 miliwn y flwyddyn fydd cyfanswm net yr arbedion ar gyfer yr opsiwn a ffafrir. Gweler Tabl 3 am ragor o fanylion.

**Buddion Parhaus (heb werth ariannol)**

45. Ar gyfer GLITEM, mae'r buddion parhaus heb werth ariannol yn cynnwys:

- Arbedion o ran costau gweithredu a chostau eraill yn sgil strategaeth i gadw llysoedd mwy mewn lleoliadau strategol yn unig;
- Y rheini a sicrheir drwy ganoli swyddogaethau swyddfa gefn;
- Arbedion o gyd-leoli gydag awdurdodaethau eraill neu bartneriaid eraill y System Cyfiawnder Troseddol - rhagwelir y bydd cyfuno swyddogaethau llys ar draws yr ystad yn helpu i sicrhau arbedion maint a fydd o fudd i ddefnyddwyr llysoedd o ran safonau mynediad at gyfiawnder gwell a gwerth gwell am arian.

46. Bydd y cau arfaethedig hefyd yn lleihau'r angen am wasanaethau wedi eu darparu gan swyddogion doc, gan arwain at arbedion (anariannol) i NOMS.

47. Ceir manylion pellach am y rhagdybiaethau ynghylch costau a buddion â gwerth ariannol a'r costau a buddion llawn ar gyfer pob Opsiwn Polisi isod.

## Gwerthusiad Economaidd

### Opsiwn polisi 0: Gwneud dim byd

48. Y dewis "gwneud dim" yw'r llinell sylfaen a ddewiswyd ar gyfer arfarnu'r dewis a ffefrir. Nid oes dim buddion na chostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Gan fod ansicrwydd ynghylch y llwyth gwaith yn y tymor canolig a'r tymor hir, rydym yn tybio na fydd newid ym maint y llwyth gwaith yn ystod cyfnod y gwerthusiad

### Opsiwn polisi 1: Ad-drefnu'r ystad yn unol â'r cynigion terfynol ar ôl ymgynghori

49. Mae Tabl 3 yn rhoi amcangyfrif o gostau a buddion yr opsiwn hwn mewn termau real, gan dybio y bydd 110 o adeiladau'n cau. Byddai oddeutu £27 miliwn y flwyddyn o arbedion cyflwr sefydlog o dan yr opsiwn hwn (prisiau 2015/16, heb gynnwys TAW) gyda Gwerth Presennol Net 10-mlynedd o £169 miliwn.

**Tabl 3: Amcangyfrif o'r costau a buddion economaidd ar gyfer Opsiwn 1**

**£m, prisiau 2015/16, heb gynnwys Treth ar Werth a VEDs, yn cynnwys OB**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau trosiannol** | **-£12** | **-£46** | **-£4** | | | **-£62** |
| Gwaith galluogi | -£3 | -£35 | -£1 | | | -£39 |
| Gwaredu | -£0.3 | -£1 | -£0.0 | | | -£1 |
| Dirywiadau | -£0.5 | -£0.4 | -£0.3 | | | -£1 |
| Adleoli a Chludo | -£1 | -£2 | -£0.2 | | | -£4 |
| Torri Prydles | -£2 | -£2 | -£0 | | | -£4 |
| Datgomisiynu TG | -£1 | -£3 | -£0.2 | | | -£4 |
| Costau'r prosiect | -£3 | -£3 | -£3 | | | -£9 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Buddion trosiannol** | | **£9** | **£32** | **£1** | | **£41** |
| Derbyniadau cyfalaf (gwerthu adeiladau) | | £9 | £32 | £1 | | £41 |
| | | | | | | |
| **Buddion parhaus** | **£1** | **£13** | **£26** | **£27** | **£27** | **£93** |
| Arbedion costau adeiladau (rhenti, cyfleustodau) | £1 | £10 | £21 | £21 | £21 | £74 |
| Arbedion costau staff (cyflogau) | £0.1 | £2 | £5 | £5 | £5 | £19 |
| Arbedion costau llwyth gwaith (effeithlonrwydd net) | -£0.0 | £0.0 | £0.1 | £0.1 | £0.1 | £0.3 |
| | | | | | | |
| **Buddion net** | **-£11** | **-£24** | **£54** | **£27** | **£27** | **£73** |
| Adnoddau | -£10 | £2 | £23 | £27 | £27 | £69 |
| Cyfalaf | -£1 | -£26 | £31 | £1 | | £4 |
| | | | | | | |
| **Gwerth Presennol Net 10-mlynedd (£m, prisiau 2015/16)** | **£169** | | | | | |

**Risgiau a Thybiaethau**

50. Tybir nad oes dim newid yn nifer yr achosion llys, dim newid yn ffioedd y llys a dim newid yn amseroedd aros defnyddwyr y llys pan maent yn y llys. Ond, ceir risg y gallai amseroedd teithio hirach effeithio ar y modd y caiff gwasanaethau eu darparu (e.e. arwain at gynnydd mewn amseroedd aros) neu ar gyfraddau effeithiolrwydd achosion (e.e. yn arwain at fwy o achosion aneffeithiol ac achosion wedi chwalu).

51. Rhagdybiwyd na fydd effaith ar y gallu i wrando achosion yn y llysoedd ynadon a llys y Goron, ac felly dim effaith ar boblogaeth carcharai a'r rhai ar remand.

52. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar ddata ariannol o alldro ariannol GLlTEM ar gyfer 2014/15 (wedi'i chwyddo i adlewyrchu prisiau 2015/16 gan ddefnyddio datchwyddydd CMC) a data llwyth gwaith (oriau gwrandawiadau) ar gyfer 2014/15. Mae hyn yn wahanol i Asesiad Effaith yr ymgynghoriad a ddefnyddiodd ddata 2013/14 ar gyfer costau a llwyth gwaith gan mai'r data hyn oedd y data diweddaraf oedd ar gael adeg y gwaith dadansoddi ar gyfer yr ymgynghoriad.

53. Rhagdybir y bydd arbedion yn cronni wrth i gostau gweithredu ddod i ben mewn llysoedd sydd wedi cau. Ond gall yr arbedion hyn gael eu llyncu'n rhannol gan gynnydd mewn costau yn sgil gwaith ychwanegol yn yr adeiladau sy'n derbyn. Mae'r dadansoddiad yn tybio bod GLlTEM yn gallu sicrhau arbedion effeithlonrwydd o 88% o gostau rhannol-newidiol o leiaf (er enghraifft rheoli cyfleusterau a chyfleustodau) a 30% o gostau newidiol (er enghraifft argraffu a phostio). Mae'n bosib y bydd arbedion ychwanegol yn cael eu gwneud wrth i waith gael ei drosglwyddo os yw'r llysoedd sy'n derbyn yn fwy effeithlon na'r llysoedd sy'n cau (ar sail cost fesul awr gwrandawiad). Felly bydd yr adeiladau sy'n derbyn naill ai'n integreiddio'r gwaith newydd yn rhan o'u prosesau (mwy effeithlon) presennol, neu'n cynnal y gost bresennol o brosesu'r gwaith y maent yn ei gael gan adeiladau sy'n cau. Os yw costau derbyn gwaith newydd yn yr adeiladau presennol yn uwch na'r disgwyl, mae'n bosib y bydd y budd cyffredinol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn a ffafrir yn llai na'r hyn a nodwyd. Fodd bynnag, mae'r risg sy'n gysylltiedig â hyn yn gymharol fach - amcangyfrifir bod yr arbedion posibl yn llai na £100,000 ar gyflwr sefydlog.

54. O dan yr opsiwn a ffafrir, tybir y bydd pob adeilad gweithredol wedi'i gau erbyn mis Medi 2017. Tybir y bydd costau gadael, fel costau adleoli a dirywiadau, yn digwydd o gwmpas dyddiad gadael y llys sy'n cau. Mae costau gwaith galluogi i fod i ddigwydd cyn symud gwaith achos i'r llysoedd sy'n derbyn, gan ystyried capasiti ac ymarferoldeb gweithredol hynny.

55. Mae'r dadansoddiad yn tybio y bydd staff GLlTEM sy'n colli eu swydd o ganlyniad i'r Rhaglen Diwygio'r Ystad yn gallu dod o hyd i swyddi eraill. Felly mae taliadau dileu swydd yn cael eu trin fel trosglwyddiad economaidd yn unol ag arweiniad llyfr Gwyrdd Trysorlys EM ac nid oes gwerth ariannol wedi'i roi iddynt.

56. Mae costau'r prosiect yn cynnwys costau staff a threuliau tîm y prosiect. Os yw'n cymryd mwy o amser i gyflawni'r prosiect neu os oes angen mwy o adnoddau na'r disgwyl, mae'n bosib y bydd buddion cyffredinol yr opsiwn a ffafrir yn llai na'r hyn a dybiwyd.

57. Tybir na fydd y costau barnwrol yn newid. Mae risg y gallai treuliau ynadon a barnwyr gynyddu o ganlyniad i'r newidiadau.

58. Tybir y bydd derbyniadau cyfalaf ( gwerthu eiddo rhydd-ddaliadol) yn cael eu gwireddu flwyddyn ar ôl gadael yr adeilad, er mwyn ystyried amseriad y broses werthu.

59. Tybir bod modd dod o hyd i ddefnydd arall i adeiladau (felly mae'r enillion trosiannol yn rhesymol). Os na, gan y bydd gwerth asedau yn is na'r disgwyl o ganlyniad, efallai y bydd budd cyffredinol yr opsiwn a ffafrir yn is na'r hyn a nodwyd. O ran symud o adeiladau ar brydles, rydym yn tybio y bydd GLlTEM yn ysgwyddo cost drosiannol sydd yr un faint â'r taliadau sy'n weddill.

60. Dangosir gwerthoedd presennol net dros gyfnod arfarnu 10 mlynedd ac mewn termau real (prisiau 2015/16).

61. Ceir crynodeb o'r rhagdybiaethau ar gyfer y costau a buddion â gwerth ariannol yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Costau a buddion â gwerth ariannol (heb duedd optimistaidd)**

| Categori | Disgrifiad | Cost/budd tybiedig |
|---|---|---|
| Cost drosiannol | Gwaith galluogi (gan gynnwys dylunio a TG) | £33m (prisiau 2015/16, heb gynnwys TAW) |
| | Costau gadael adeilad:<br>-Cost gwaredu - gwerthiant<br>-Cost dirywiadau<br><br>-Cost Adleoli a Chludo<br>-Taliadau gadael prydles<br>-Datgomisiynu TG | Mae'n cynnwys (oni bai y caiff ei addasu yn ôl rhanbarth)<br>Ar gyfer adeiladau rhydd-ddaliadol yn unig: £7,000 y safle a 3% o werth tybiedig y safle (yn cynnwys TAW)<br>Ar gyfer adeiladau ar brydles yn unig (heb gynnwys prydlesi MOTO): Data wedi'i gymryd o gofrestr safle wrth safle, £60 am bob metr sgwâr ar gyfartaledd<br><br>£7,500 ar gyfer pob ystafell llys (yn cynnwys TAW) a £10,000 o gost adleoli a chludo fesul safle (yn cynnwys TAW)<br>Maint y taliadau rhent sy'n weddill ar gytundeb y brydles<br>£35,000 y safle (heb gynnwys TAW) |
| | Costau'r prosiect | £9m (prisiau 2015/16, heb gynnwys TAW) |
| Cost barhaus | Costau llwyth gwaith ychwanegol | Costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r llwyth gwaith mewn adeiladau sy'n derbyn y gwaith, er enghraifft argraffu a phostio. |
| Budd trosiannol | Gwaredu eiddo | Mae prisiadau eiddo rhydd-ddaliadol yn seiliedig ar amcangyfrif o werthoedd tir |
| Budd parhaus | Gostyngiad mewn costau gweithredu | Arbedir rhent ac ardrethi busnes yn yr adeiladau sy'n cau. Bydd cyfran o'r costau sy'n gysylltiedig â chyfleustodau, cynnal a chadw a staffio yn cael eu harbed hefyd mewn adeiladau sy'n cau. |
| | Gostyngiad mewn costau staff | Arbedion yn sgil gostyngiad yn nifer y staff wrth i rolau gael eu dyblygu yn y llysoedd sy'n derbyn. |

62. Mae nifer o'r costau a'r buddion hyn yn ansicr. I roi cyfrif am duedd systematig ac amlwg arfarnwyr prosiect i fod yn optimistaidd, rydym wedi defnyddio'r ffigurau tuedd optimistaidd yn Nhabl 5 yn unol ag arweiniad llyfr gwyrdd Trysorlys EM a'u haddasu i ystyried yr amcangyfrifon risg cost-benodol diweddaraf gan GLlTEM.

**Tabl 5: Crynodeb o'r duedd optimistaidd**

| Categori | Math | Cost/Budd | Tuedd optimistaidd dybiedig |
|---|---|---|---|
| Costau | Trosiannol | Gwaith galluogi (cyfalaf) | 20% |
| | | Gwaith galluogi (adnoddau) | 8% |
| | | Costau gadael adeilad: | |
| | | Cost gwaredu | 0% |
| | | Dirywiadau | 8% |
| | | Costau Adleoli a Chludo | 8% |
| | | Taliad gadael prydles | 8% |
| | | Datgomisiynu TG | 8% |
| | | Costau'r Prosiect (staff) | 0% |
| | Parhaus | Cynnydd mewn costau gweithredu mewn adeiladau sy'n derbyn (staff) | 0% |
| | | Cynnydd mewn costau gweithredu mewn adeiladau sy'n derbyn (dim staff) | 0% |
| Buddion | Trosiannol | Gwerthu tir/adeiladau | -20% |
| | Parhaus | Arbedion costau gweithredu mewn adeiladau sy'n cau (staff) | -5% |
| | | Arbedion costau gweithredu mewn adeiladau sy'n cau (dim staff) | -5% |
| | | Trosglwyddo arbedion costau i'r safle sy'n derbyn (staff) | -30% |
| | | Trosglwyddo arbedion costau i'r safle sy'n derbyn (dim staff) | -30% |

63. Nid yw'r tybiaethau ar gyfer y duedd optimistaidd ar gyfer costau a buddion wedi newid ers asesiad effaith yr ymgynghoriad gwreiddiol. Gwneir hyn i adlewyrchu'r lefel risgiau sydd wedi'i chadw oherwydd nad yw'r costau terfynol wedi'u cael eto gan gyflenwyr.

**Sefyllfaoedd a materion sensitif**

64. Mae'r adran hon yn ymdrin â phrif faterion sensitif yr opsiwn a ffafrir (Opsiwn 1).

*Buddion trosiannol yn sgil gwerthu tir/adeiladau*

65. Mae cyfanswm y derbyniadau cyfalaf yn ansicr oherwydd nid oes sicrwydd ynglŷn â beth fydd yr amodau economaidd yn y cyfnod gwaredu. Mae'r achos sylfaenol yn defnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf am werthoedd tebygol ar y farchnad yr adeiladau rhydd-ddaliadol sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad.
66. Bydd pob gostyngiad 10% ym maint y derbyniadau cyfalaf a dderbynnir ar ôl gwerthu'r adeiladau yn gostwng £3.9 miliwnar Werth Presennol Net yr opsiwn a ffafrir.

*Arbedion effeithlonrwydd sy'n ymwneud â chostau gweithredu*

67. Bydd adeiladau sy'n derbyn gwaith ychwanegol o ganlyniad i'r cynigion yn gweld cynnydd mewn costau yn sgil mwy o ddefnydd ar gyfleustodau, costau cynnal a chadw uwch a chostau newidioluwch (er enghraifft argraffu, postio a defnyddio ffôn). Ond mae'r ffaith na fydd y safle sy'n cau yn gorfod talu'r costau hyn rhagor yn gwneud iawn am hyn. Os yw'r safle sy'n derbyn yn fwy effeithlon, bydd y gost ychwanegol yn llai na'r costau a arbedir drwy gau.
68. Amcangyfrifir y bydd yr arbedion effeithlonrwydd yn £0.1m y flwyddyn. Oni wireddir yr arbedion effeithlonrwydd hyn, bydd Gwerth Presennol Net 10 mlynedd cyffredinol yr opsiwn a ffafrir yn gostwng £0.9 miliwn.

*Gwaith hwyluso*

69. Costau gwaith hwyluso - y buddsoddiad yn y llys sy'n derbyn i allu delio â gwaith y llysoedd sy'n cau – yw'r gost drosiannol fwyaf. Fodd bynnag, mae'n destun rhywfaint o ansicrwydd gan fod yr hollgostau yn seiliedig ar amcangyfrifon sy'n deillio o arolygon y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a dim ond ar ôl i'r broses gaffael ddechrau y bydd modd cael gwybod faint yn union o fuddsoddiad fydd ei angen.
70. Cyfanswm costau'r gwaith galluogi ar gyfer yr opsiwn a ffafrir yw £40 miliwn, a bydd cynnydd o 10% mewn gwaith galluogi yn gostwng £3.8 miliwn ar y Gwerth Presennol Net 10 mlynedd.

*Casgliad*

71. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn dangos y byddai Opsiwn 1 yn dal yn gallu sicrhau Gwerth Presennol Net uchel a phositif er gwaetha'r meysydd ansicrwydd hyn.

### Effeithiau ar amser teithio

72. Un o brif effeithiau'r Rhaglen Diwygio'r Ystad fydd cynnydd yn yr amser teithio i'r llys/tribiwnlys i ddefnyddwyr posib y llys. Wrth i'w llys lleol gau, mae'n bosib y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr llysdeithio ymhellach i fynd i wrandawiad. Rydym felly wedi modelu amseroedd teithio defnyddwyr llyser mwyn gallu gwerthuso'r effaith hon.

73. Mae model wedi cael ei ddatblygu i asesu amseroedd teithio o bob Ardal Cynnyrch Ehangach Is (LSOA) oherwydd nid yw'n ymarferol cyfrifo amseroedd teithio o bob cyfeiriad unigol yng Nghymru a Lloegr. Yn ôl diffiniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys rhwng 1,000 a 2,000 o bobl yn bennaf. Felly gwnaethom gyfrifo’r amseroedd teithio o ganol pob LSOA i bob un o'u llysoedd/tribiwnlysoedd lleol (llys ynadon, llys y Goron, llys sirol, tribiwnlys cyflogaeth a thribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant) (Tribiwnlys SSCS) a’u pwysoli yn unol â data cyfrifiad 2011. Nodwyd mewn rhai ymatebion i'r ymgynghoriad mai dim ond teithiau o ganol trefi i lysoedd a gafodd eu hystyried yn y dadansoddiad o amseroedd teithio. Ond nid felly y mae - mae pob tref yn y dadansoddiad o amseroedd teithio yn cynnwys sawl LSOA yn dibynnu ar faint y dref ac mae pob un LSOA yn cael ei ystyried yn y dadansoddiad.

74. Cafodd amseroedd teithio gyda char a thrafnidiaeth gyhoeddus eu cyfrifo drwy ddefnyddio data o adnodd Trefnu Teithiau Transport Direct[1]. Ers y dadansoddiad gwreiddiol, mae’r Adran Drafnidiaeth wedi cau Transport Direct gan y gwelwyd fod gwasanaethau gwybodaeth am deithio tebyg ar gael yn eang ar-lein erbyn hyn drwy sawl ffynhonnell arall. Mae amseroedd teithio yn yr Asesiad o Effaith hwn yn seiliedig ar ddata 2014  sy’n dal yn ddilys er bod gwasanaeth Transport Direct ar-lein wedi dod i ben.

75. Mae'r teithiau hyn yn cael eu cyfrifo gan dybio bod unigolyn ynmynd i'r llys erbyn 10am ac yn gadael am 5pm. Os nad oes dim trafnidiaeth gyhoeddus ar gael ar gyfer y daith i'r llys a'r daith oddi yno, rydym yn tybio nad oes trafnidiaeth gyhoeddus ar gael. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn ddarlun pesimistaidd, oherwydd mewn rhai achosion efallai mai'r ffaith nad yw'r adnodd Trefnu Teithiau wedi llwyddo i ddod o hyd i'r llwybr yw'r rheswm pam nad oes siwrnai ar gael. Mae’n debygol y byddai GLITEM yn ceisio helpu defnyddwyr llys sy’n wynebu taith feichus iawn i'r llys drwy ystyried hynny wrth restru’r achos.

76. Er y dylai'r broses fodelu hon roi darlun eithaf cywir o'r effaith ar amser teithio, mae'n anochel y bydd rhai cyfyngiadau. Er enghraifft, rydym wedi mapio pob LSOA i'r llys lleol a oedd yn ymddangos fwyaf priodol. Fodd bynnag, rhaid cofio mai ein hamcangyfrif gorau yw hwn, ac mae'n bosib na fydd yn gywir bob tro. Bydd y mapio hefyd yn amrywio gan ddibynnu ar y math o achos – dim ond un set o fathau o achosion rydym ni wedi'u modelu ar gyfer pob awdurdodaeth ac nid ydym wedi cynnwys lleoliadau lloeren. Yn olaf, mae'n bosib y bydd y pellter teithio yn amrywio yn ôl math o ddefnyddiwr llys – mae defnyddwyr sifil yn fwy tebygol o fynd i'w llys lleol, tra mae'n bosib y bydd angen i ddioddefwyr a thystion fynd ymhellach na'u llys lleol agosaf.


77. Rydym yn modelu'r newid mewn amseroedd teithio ar ôl cau'r llys lleol i'r 'llys sy'n derbyn', gan ddilyn yr hyn a gynigiwyd gan Gyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol GLITEM. Ar lefel genedlaethol (a ddangosir yn y siartiau isod), bydd y cwsmeriaid yn gweld cynnydd yn yr amseroedd teithio ar gyfer y rhan fwyaf o lysoedd a thribiwnlysoedd. Llysoedd ynadon sy'n wynebu'r effaith fwyaf, lle nad yw oddeutu 7% o'r boblogaeth oed gweithio (tua 2.5 miliwn o bobl) o fewn 30 munud o'r llys ar drafnidiaeth gyhoeddus erbyn hyn. Mae tua'r un ganran yn awr fwy na 60 munud i ffwrdd o'r llys. Fodd bynnag, mae 29% yn dal o fewn 30 munud o'u llys agosaf ar drafnidiaeth gyhoeddus (a mwy nag 80% mewn car). Mae'r effaith yn llai ar lysoedd sirol ac ar lysoedd y Goron, ac nid oes fawr ddim effaith ar Dribiwnlysoedd.


**78.** Mewn rhai achosion, nid oes data amser teithio ar gael ar yr adnodd Trefnu Teithiau ar gyfer nifer o deithiau, sy’n amrywio o un rhanbarth ac awdurdodaeth i'r llall. Nid diffyg data oedd y rheswm am hyn, ond y ffaith bod y teithiau wedi’u tynnu o’r adnodd adeg y dadansoddi. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae hyn yn cyfrif am 0%-5% o bob taith wedi'i modelu, a hyd at oddeutu 50% o rai tribiwnlysoedd yn rhanbarth Canolbarth Lloegr Rydym wedi amcangyfrif amseroedd teithio ar gyfer y teithiau hyn drwy ddefnyddio adeilad y llys agosaf yn yr un ardal leol, e.e. defnyddio Birmingham Civil Justice Centre yn lle Birmingham Centre City House.  Os nad oes llysoedd eraill yn yr ardal leol, rydym yn defnyddio cyflymder teithio rhanbarthol cyfartalog gyda char a thrafnidiaeth gyhoeddus a phellteroedd i gyfrifo'r amseroedd teithio, e.e. ar gyfer Rochdale.


---


[1] Roedd yr holl ffigurau yn amodol ar Delerau ac Amodau Transport Direct (http://www.transportdirect.info/Web2/About/TermsConditions.aspx)


**Siartiau 1-6: Effaith genedlaethol cau llysoedd ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**




**Tabl 6: Crynodeb o effaith genedlaethol cau llysoedd ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**

| **Mynediad gyda char** | Cyn newidiadau | | Ar ôl newidiadau | |
|---|---|---|---|---|
| | 0-60mun | 0-120mun | 0-60mun | 0-120mun |
| Llysoedd y Goron | 97% | 100% | 97% | 100% |
| Llysoedd Ynadon | 100% | 100% | 99% | 100% |
| Llysoedd sirol | 99% | 100% | 98% | 100% |
| Tribiwnlysoedd | 83% | 98% | 83% | 98% |

| **Mynediad gyda thrafnidiaeth gyhoeddus** | Cyn newidiadau | | Ar ôl newidiadau | |
|---|---|---|---|---|
| | 0-60mun | 0-120mun | 0-60mun | 0-120mun |
| Llysoedd y Goron | 62% | 94% | 61% | 93% |
| Llysoedd Ynadon | 82% | 97% | 74% | 95% |
| Llysoedd sirol | 78% | 100% | 73% | 100% |
| Tribiwnlysoedd | 39% | 79% | 39% | 79% |

79. Cyfrifwyd yr effaith ar amseroedd teithio i dribiwnlysoedd yn Nhabl 6 gan ddefnyddio cyfartaledd amhwysol amseroedd teithio i dribiwnlys cyflogaeth a thribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant. Mae siartiau 1 i 6 yn rhoi rhagor o fanylion fesul hanner awr.

80. Nid yw'r ffigurau cenedlaethol hyn yn dangos effaith sylweddol ar lefel ranbarthol gan fod mwy o lysoedd yn cael eu cau mewn rhai rhanbarthau neu gan fod llai o bobl yn byw yn y rhanbarth. Dangosir effeithiau rhanbarthol mwy penodol yn **Atodiad B**. Er enghraifft, mae'r rhain yn awgrymu na fydd Llundain yn gweld cynnydd arbennig o fawr mewn amseroedd teithio gan fod yno system trafnidiaeth gyhoeddus dda sy'n ei gwneud yn gymharol hawdd i bobl fynd i lys gwahanol. Cymru, ar y llaw arall, fyddai'n gweld yr effaith fwyaf. Gan nad yw'r boblogaeth mor ddwys yng Nghymru, a bod llai o lysoedd yno, mae unrhyw achosion o gau yn debygol o olygu mwy o gynnydd mewn amseroedd teithio ar ôl cau llysoedd.

81. Ar lefel fwy lleol byth, bydd y darlun yn fwy amrywiol o lawer. Bydd y rheini sy'n byw yn nalgylch llys sy'n cau yn gweld effaith ar amseroedd teithio gan y bydd angen i'r bobl hyn deithio ymhellach i fynd i'r llys nesaf. Bydd yr effaith ar amser teithio yn amrywio gan ddibynnu ar y llys dan sylw. Bydd y rheini sy'n byw yn nalgylch llys ynadon sy'n cau yn gorfod teithio oddeutu 35 munud yn fwy ar gyfartaledd ar drafnidiaeth gyhoeddus o dan yr opsiwn a ffafrir. Fodd bynnag, ni fydd cau'r llysoedd yn effeithio o gwbl ar y rhan fwyaf o'r boblogaeth (91% ar gyfer llysoedd ynadon, 99% ar gyfer llysoedd y Goron, 94% ar gyfer llysoedd sifil sirol, 95% ar gyfer llysoedd teulu sirol, 99% ar gyfer tribiwnlysoedd cyflogaeth a 98% ar gyfer tribiwnlysoedd nawdd cymdeithasol a chynnal plant).

82. Roedd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi pryderon ynghylch effeithiau costau teithio yn cael eu heithrio o'r dadansoddiad yn Asesiad Effaith yr ymgynghoriad, gan gynnwys rhai sylwadau ynghylch effaith costau teithio uwch ar unigolion incwm is. Fodd bynnag, nid yw wedi bod yn bosibl darparu effeithiau cost teithio ar gyfer pob llys a chanolfan gwrandawiadau a nodwyd yn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad - mae'r effaith gyffredinol ar deithio i lysoedd a chanolfannau gwrandawiadau yn ansicr gan fod rhai defnyddwyr yn teithio i lysoedd a chanolfannau gwrandawiadau yn fwy aml nag eraill (e.e. barnwyr o'i gymharu â thystion) ac efallai na fydd angen i ddefnyddwyr rheolaidd wneud cymaint o deithiau wrth inni weld llai o lysoedd a chanolfannau gwrandawiadau yn yr ystad (e.e. yr Heddlu a'r Gwasanaeth Carchardai a Hebrwng Carcharorion). Ond, mae amcangyfrif o'r effeithiau ar gyfer pob rhanbarth wedi'i amcangyfrif isod, gan ddefnyddio rhagdybiaethau sy'n seiliedig ar ddata'r Adran Drafnidiaeth ar gyfer costau cyfartalog teithiau car [2] a

[2] Ffynonellau am gostau car – DfT, Transport analysis guidance: WebTAG, 2014, Table A1.3.7 and ENV0103 Average new car fuel consumption 2013

thrafnidiaeth gyhoeddus[3]. Nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys gwerth amser gweithio i ddefnyddwyr llys oherwydd yr ansicrwydd ynghylch amrywiaeth y gwerthoedd ar draws mathau o ddefnyddwyr.

83. Mae Tabl 7 ac 8 yn dangos y newid yn yr amseroedd teithio cyfartalog am bob taith defnyddiwr ar gyfer pob rhanbarth, awdurdodaeth a'r dull o deithio, yn dilyn cau yn unol â'r ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r amser teithio'n cynrychioli teithiau gyda char a thrafnidiaeth gyhoeddus o'r LSOA i'r llys neu ganolfan gwrandawiadau leol[4]. Ar gyfer rhai canolfannau gwrandawiadau tribiwnlysoedd, y rheswm am y gostyngiad yn yr amseroedd teithio mewn rhai rhanbarthau yw oherwydd bod y gwaith hwn yn cael ei drosglwyddo i lysoedd yn nes at yr LSOA hwnnw.

**Tabl 7 - Amser teithio fesul taith defnyddiwr fesul rhanbarth gyda char**

| **Car** | **Cynnydd cyfartalog yn yr amser teithio fesul taith (munudau)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llys y Goron | Ynadon | Sifil | Teulu | SSCS | Trib. Cyflogaeth |
| Llundain | 0.0 | 2.9 | 3.1 | 0.1 | 0.0 | 0.0 |
| Canolbarth Lloegr | 0.0 | 3.0 | 1.3 | 2.6 | 0.2 | 0.0 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 0.0 | 2.1 | 1.9 | 2.1 | -0.1 | -0.4 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 0.0 | 3.8 | 5.2 | 3.8 | 0.0 | 0.0 |
| De-ddwyrain Lloegr | 0.2 | 4.0 | 2.4 | 1.9 | 1.4 | 0.4 |
| De-orllewin Lloegr | 2.9 | 1.7 | 0.6 | 1.2 | 0.2 | 0.7 |
| Cymru | 2.8 | 4.9 | 1.6 | 3.4 | -2.5 | 0.0 |

**Tabl 8 - Amser teithio fesul taith defnyddiwr fesul rhanbarth gyda thrafnidiaeth gyhoeddus**

| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | **Cynnydd cyfartalog yn yr amser teithio fesul taith (munudau)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llys y Goron | Ynadon | Sifil | Teulu | SSCS | Trib. Cyflogaeth |
| Llundain | 0.0 | 3.8 | 3.6 | 1.3 | 0.0 | 0.0 |
| Canolbarth Lloegr | 0.0 | 6.5 | 3.5 | 5.5 | 0.1 | 0.0 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 0.0 | 4.5 | 4.0 | 4.5 | 0.9 | 2.5 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 0.0 | 8.4 | 8.5 | 8.3 | 0.0 | 0.0 |
| De-ddwyrain Lloegr | 0.9 | 7.2 | 4.4 | 3.4 | -0.3 | -1.9 |
| De-orllewin Lloegr | 4.7 | 3.8 | 0.4 | 2.3 | -0.4 | 1.3 |
| Cymru | 2.6 | 6.8 | 2.5 | 4.5 | -3.5 | 0.0 |

84. Ar gyfer teithiau car, mae data ar y defnydd cyfartalog o danwydd a phrisiau cyfartalog tanwydd o ystadegau'r Adran Drafnidiaeth wedi cael eu cyfuno ag effeithiau pellter gyrru i amcangyfrif yr effaith ar gostau teithiau cyfartalog y car yn ôl rhanbarth ac awdurdodaeth yn Nhabl 9.

[3] Ffynhonnell costau trafnidiaeth gyhoeddus – Office of Rail and Road, Revenue per passenger kilometre and revenue per passenger journey – Table 12.10

[4] Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys diweddariad ers yr ymgynghoriad i chwe safle derbyn arfaethedig a fydd yn darparu ar gyfer y gwaith o gau safleoedd. Mae'r safleoedd hyn yn ddaearyddol agosach na'r safleoedd arfaethedig gwreiddiol, felly bydd yr effeithiau costau teithio yn is na'r amcangyfrif yma.

**Tabl 9 - Cynnydd cyfartalog mewn costau teithio fesul rhanbarth gyda char ar gyfer defnyddwyr yr effeithir arnynt**

| Car | Cynnydd cyfartalog yn y gost teithio am bob taith (ceiniogau) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llys y Goron | Ynadon | Sifil | Teulu | SSCS | Trib. Cyflogaeth |
| Llundain | 0.0 | 7.1 | 9.4 | 3.5 | 0.0 | 0.0 |
| Canolbarth Lloegr | 0.0 | 25.4 | 16.8 | 26.7 | 0.6 | 0.0 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 0.0 | 28.1 | 20.3 | 28.1 | 1.7 | 3.5 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 0.0 | 13.8 | 18.8 | 14.6 | 0.0 | 0.0 |
| De-ddwyrain Lloegr | 4.4 | 40.9 | 20.0 | 25.2 | 10.2 | -6.1 |
| De-orllewin Lloegr | 91.8 | 13.3 | 6.5 | 11.1 | -0.3 | -0.4 |
| Cymru | 34.1 | 28.2 | 18.7 | 14.7 | -23.8 | 0.0 |

85. Ar gyfer teithiau ar drafnidiaeth gyhoeddus, mae data ar gostau cyfartalog teithwyr trên wedi'u cyfuno ag effeithiau amser teithio i amcangyfrif yr effaith ar gostau teithio cyfartalog fesul teithiwr, gyda thrên yn unig. Mae'r canlyniadau yn Nhabl 10 wedi'u llunio gan ddefnyddio cyflymder cyfartalog tybiedig o 94 cilomedr yr awr, sy'n seiliedig ar ddadansoddiad dangosol drwy Google Maps o deithiau trên o ardaloedd metropolitan i ganol dinasoedd yn 7 rhanbarth Cymru a Lloegr.

**Tabl 10 - Cynnydd cyfartalog mewn costau teithio fesul rhanbarth gyda thrafnidiaeth gyhoeddus**

| Trafnidiaeth Gyhoeddus | Cynnydd cyfartalog yn y gost teithio am bob taith (ceiniogau) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llys y Goron | Ynadon | Sifil | Teulu | SSCS | Trib. Cyflogaeth |
| Llundain | 0.0 | 83.4 | 79.8 | 27.9 | 0.0 | 0.0 |
| Canolbarth Lloegr | 0.0 | 143.0 | 78.3 | 122.6 | 3.1 | 0.0 |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 0.0 | 98.9 | 89.4 | 99.3 | 20.4 | 55.2 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 0.0 | 185.4 | 189.1 | 182.9 | 0.0 | 0.0 |
| De-ddwyrain Lloegr | 18.8 | 160.5 | 98.2 | 74.5 | -6.9 | -42.1 |
| De-orllewin Lloegr | 103.5 | 84.7 | 8.4 | 51.9 | -9.1 | 28.6 |
| Cymru | 58.3 | 151.7 | 56.3 | 100.0 | -77.6 | 0.0 |

## Adolygu'r Polisi

86. Ni chaiff y polisi hwn ei adolygu ar wahân, ond bydd yn rhan o adolygiadau parhaus GLlTEM o gapasiti ei ystad gwrandawiadau i sicrhau ei bod yn bodloni gofynion gweithredu, yng nghyswllt egwyddor GLlTEM o sicrhau mynediad at gyfiawnder, sicrhau gwerth am arian a chyflawni effeithlonrwydd yn y tymor hwy.

## Crynodeb o'r Atodiadau

### Atodiad A - Profion Effaith Penodol

87. Yn cynnwys adrannau ar Brofion Effaith Asesu'r Gystadleuaeth, yr Amgylchedd Ehangach, Nwyon Tŷ Gwydr, Iechyd, Hawliau Dynol, Cyfiawnder, Prawfesur Gwledig, Cwmnïau Bychain a Datblygu Cynaliadwy.

### Atodiad B - Effeithiau ar amseroedd teithio yn rhanbarthol

88. Mae’n cynnwys graffiau a dadansoddiad o effeithiau rhanbarthol amseroedd teithio.

### Atodiad C - Prawf o’r Effaith ar y Gymraeg

89. Mae’n cynnwys adran ar effaith yr opsiwn sy’n cael ei ffafrio ar y Gymraeg.

### Atodiad D - Cynllun Adolygu ar ôl Gweithredu

90. Mae’n cynnwys proses y Cynllun Adolygu ar ôl Gweithredu yng nghyswllt penderfyniad yr ymgynghoriad ar yr opsiwn sy’n cael ei ffafrio.

## Atodiad A - Profion Effaith Penodol

91. Mae’r profion sgrinio canlynol wedi cael eu cynnal ar yr opsiwn sy’n cael ei ffafrio.

*Asesu’r Gystadleuaeth*

92. Nid ydym yn rhagweld y bydd y rhaglen cau llysoedd yn cael effaith o bwys ar y gystadleuaeth. Yn benodol, nid ydym yn disgwyl y bydd y rhaglen cau llysoedd yn cyfyngu ar y canlynol:

- Nifer y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyfreithiol
- Gallu cyflenwyr i gystadlu
- Cymhellion cyflenwyr i gystadlu'n egnïol

93. Yn anuniongyrchol, mae'n bosib y bydd yn costio ychydig bach mwy i rai o ddefnyddwyr y llys gan y bydd yn rhaid iddynt deithio'n bellach i gyrraedd eu llys agosaf. Fodd bynnag mae'n debygol y bydd modd gwrthbwyso rhai o'r costau hyn - neu bob un ohonynt - yn erbyn manteision ystad lai amwy strategol a fydd yn galluogi darparwyr gwasanaethau cyfreithiol i reoli eu gwaith yn well ar draws ystad sydd wedi'i chynllunio'n fwy strategol.

*Prawf Effaith Amgylcheddol Ehangach*

94. Nid oes disgwyl y bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar ansawdd yr aer, ansawdd a lefel y dŵr, perygl llifogydd, bioamrywiaeth, tirwedd na sŵn. Gan ddefnyddio'r rhestr wirio a gyhoeddwyd ganDEFRA (http://www.defra.gov.uk/corporate/about/how/policy-guidance/sd-impact/) mae pob effaith fawr bosibl wedi cael ei hystyried.

95. *A fydd yr effeithiau a ragwelir ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar yr opsiwn polisi?* Mae’r polisi yn argymell cau'r adeiladau sydd, yn gyffredinol, yn llai na'r llysoedd a fydd yn aros ar agor ac sydd mewn ardaloedd â phoblogaeth is. Gan fod y llysoedd/tribiwnlysoedd wedi'u rhannu dros ardal ddaearyddol wahanol iawn, nid yw'r llysoedd/tribiwnlysoedd hyn wedi cael eu dewis ar sail pa mor agos ydynt at yr arfordir na pha mor agored ydynt i'r perygl o lifogydd. Nid oes bwriad i ddymchwel y llysoedd/tribiwnlysoedd ychwaith, ac ni fydd y ffaith eu bod yn cael eu gwaredu yn effeithio ar yr amgylchedd. Hefyd, mae'r holl adeiladau yn dod o dan Gynllun Addasu at Newid yn yr Hinsawdd yr adran, ac nid oes dim un ohonynt wedi'u nodi'n adeiladau sydd mewn perygl neu'n agored i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

96. *A fydd yr opsiwn polisi yn arwain at newid yng nghostau ariannol, neu effeithiau amgylcheddol neu iechyd rheoli gwastraff?* Fel arfer, mae cynhyrchu gwastraff yn cael ei gysylltu â niferoedd staff yn hytrach na maint yr ystad; felly ni fydd unrhyw effaith arwyddocaol. Bydd mwy o wastraff yn cael ei gynhyrchu dros dro wrth wagio'r adeiladau, ond bydd yn cael ei waredu'n gynaliadwy yn unol âchanllawiau WRAP. Mae'r cynnydd dros dro hwn yn debygol o gael ei wrthbwyso yn erbyn y lefelau ychydig llai o wastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu yn yr ystad lai.

97. *A fydd yr opsiwn polisi yn cael effaith arwyddocaol ar ansawdd yr aer?* Mae profion sgrinio cychwynnol yn dangos y bydd hyd cyfartalog teithiau i'r llys yn cynyddu o bosib yn sgil y rhaglen hon. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw gynnydd yn cael effaith arwyddocaol ar effaith yr aer, a bydd modd gwrthbwyso amser teithio yn erbyn llai o deithiau i ystad sydd wedi'i chynllunio'n well yn strategol

98. *A fydd yr opsiwn polisi yn golygu unrhyw newid o bwys i ymddangosiad y tirlun neu'r treflun?* Na. Nid oes bwriad i ddymchwel dim un o'r adeiladau hyn.

99. *A fydd y cynnig yn newid 1) graddfa’r llygredd dŵr 2) lefelau echdynnu dŵr neu 3) pa mor debygol yw'r risg o lifogydd?* 1) Na. 2) Na. 3) Na.

100. *A fydd yr opsiwn polisi yn newid 1) nifer neu amrywiaethau'r rhywogaethau byw 2) nifer, amrywiaeth neu ansawdd ecosystemau?* 1) Na. 2) Na

101. *A fydd yr opsiwn polisi yn effeithio ar nifer y bobl y bydd sŵn yn effeithio arnynt, neu lefelau'r sŵn?* Na.

*Prawf Effaith Nwyon Tŷ Gwydr*

102. Mae'r rhaglen cau llysoedd yn effeithio ar allyriadau carbon mewn dwy brif ffordd:

- llai o ynni yn sgil cau'r llysoedd (ar ôl ystyried yr ynni ychwanegol y bydd ei angen wrth i lysoedd ysgwyddo cyfrifoldebau barnwrol ychwanegol), a hefyd
- y teithio ychwanegol y bydd rhaid i ddefnyddwyr y llys ei wneud yn sgil y rhaglen cau llysoedd (ar ôl ystyried llai o deithiau posib i'r rhai sy'n defnyddio'r llys yn amlach yn sgil ystad sydd wedi'i chynllunio'nwell yn strategol).

103. Ni chredir y bydd y polisi yn cael effaith sylweddol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

*Asesiad o'r Effaith ar Iechyd*

104. Nid oes disgwyl y bydd y rhaglen cau llysoedd arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar hyn.

*Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol*

105. Mae profion sgrinio cychwynnol y prawf effaith hwn yn dangos na fyddai'r cynnig hwn yn torri amodau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Yn benodol, rydym wedi ystyried potensial yr effaith o dan Erthygl 6 – yr hawl i gael achos teg – ond nid ydym o'r farn y bydd y cynigion hyn yn rhwystro mynediad at system gyfiawnder annibynnol a theg.

*Prawf Effaith ar Gyfiawnder*

106. Mae'r prif Asesiad o'r Effaith yn nodi costau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol, i'r system gyfiawnder.

*Prawf Effaith Prawfesur Polisïau Gwledig*

107. Gallai'r cynnig hwn gael effaith ar gymunedau gwledig. Yn ôl diffiniad DEFRA, mae aneddiadau sydd â phoblogaeth o dros 10,000 yn ôl y Cyfrifiad yn ardal *drefol*, tra mae'r gweddill yn perthyn i un o dair math o ardal wledig: *tref a'r cyrion*, *pentref neu bentrefan* ac *ar wasgar*. Er bod y rhan fwyaf o'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd arfaethedig mewn trefi a fyddai'n cael eu diffinio'n ardaloedd "trefol", mae'n bosib bod rhai o'u defnyddwyr yn byw mewn ardaloedd gwledig. Felly rydym wedi defnyddio'r rhestr wirio agyhoeddir gan DEFRA wrth ystyried yr effeithiau posib (http://www.defra.gov.uk/corporate/about/how/policy-guidance/rural-proofing/). Mae ymgyngoriadau â Chyfarwyddwyr Cyflawni rhanbarthol GLlTEM wedi rhoi sylw dyledus i'r rheini mewn ardaloedd gwledig y bydd angen iddynt deithio ymhellach na phobl eraill i allu defnyddio gwasanaethau'r llys.

*108. Darparu gwasanaethau ac argaeledd:* Mae'r polisi hwn yn argymell canoli gwasanaethau. Bydd hyn yn effeithio ar y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol, ond ni ddylai leihau faint o wasanaethau sydd ar gael gan y bydd y rhaglen cau llysoedd yn trosglwyddo swyddogaethau'r llys/tribiwnlys i adeiladau gerllaw sydd â swyddogaethau tebyg.

*109. Costau cyflawni:* Disgwylir y bydd y gost o gyflawni'r gwasanaeth yn lleihau gan y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gwneud arbedion maint drwy ddefnyddio llai o adnoddau yn fwy effeithlon a thrwy ganoli gwasanaethau.

*110. Hygyrchedd ac isadeiledd:* Mae'n debygol y bydd hyd teithiau'n cynyddu, ac mae'r cynnydd hwnnw fwyaf tebygol o ddigwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, ystyrir bod y cysylltiadau trafnidiaeth yn ddigonol a disgwylir y bydd hyd teithiau yn dal yn dderbyniol. Mae'n annhebygol y byddant yn effeithio ar ddefnyddwyr unigol mewn modd a fydd yn golygu ei bod yn annhebygol y byddant yn mynd i'r llys.

111. Mae'r effeithiau ar yr amser teithio wedi'u nodi yn yr adran ar amser teithio yn yr Asesiad o'r Effaith hwn (gweler "Effeithiau ar amser teithio"), ac mae rhagor o fanylion am yr effaith ar yr amser teithio ar gael yn y papur ymgynghori.

112. *Cyfathrebu:* Mae'n annhebygol y bydd y polisi hwn yn effeithio ar gyfathrebu, a bydd ystod o atebion cyfathrebu yn dal i gael eu defnyddio.

113. *Yr Economi:* Er bod posibilrwydd y bydd rhywfaint o effaith negyddol ar drefi lle bydd llysoedd/tribiwnlysoedd yn cau, disgwylir i'r effaith hon fod yn fach, a'r effaith gyffredinol yn fach iawn, wrth i wasanaethau gael eu trosglwyddo i ardaloedd cyfagos.

114. *Anfantais:* Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau arwyddocaol o dan y dangosydd hwn.

*Prawf Effaith ar Gwmnïau Bach*

115. I fusnesau bach (gan gynnwys bargyfreithwyr), efallai y bydd ychydig bach o gynnydd mewn amser a chostau teithio oherwydd yr angen am deithio ychwanegol i gynnal busnes yn eu llys agosaf. Fodd bynnag, byddai modd gwrthbwyso hyn yn erbyn llai o deithiau i'r llys, gan y bydd busnes y llys yn cael ei gynllunio'n well yn strategol.

*Prawf Effaith Datblygu Cynaliadwy*

**Cam 1**

1. Safonau Amgylcheddol

| |
|---|
| 1a. A oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol yn deillio o'ch cynnig polisi (gweler y Prawf Effaith Penodol Amgylcheddol Ehangach)? |
| Na |
| Os 'oes' yw'r ateb, gwnewch nodyn byr o'r effeithiau isod: |
| Amh. |

| |
|---|
| 1b. Os 'oes' oedd eich ateb i 1a., a yw'r effeithiau amgylcheddol sylweddol yn berthnasol i unrhyw rai o'r safonau cyfreithiol a rheoleiddiol a nodwyd? |
| Amh. |
| Os 'ydynt' yw'r ateb, gwnewch nodyn byr o'r safonau perthnasol isod: |
| Amh. |

| |
|---|
| Os 'ydynt' oedd eich ateb i 1b., ydych chi wedi: |
| 1c. Hysbysu'r Adran Llywodraeth sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am y trothwy, ac wedi cadarnhau â nhw sut i gynnwys yr effeithiau'n briodol wrth ddadansoddi costau a buddion? |
| Amh. |
| 1d. Hysbysu gweinidogion, lle bo hynny'n briodol? |
| Amh. |
| 1e. Cytuno ar gamau lliniaru neu gydbwyso, lle bo hynny'n briodol? |
| Amh. |

2. Effeithiau sy'n pontio'r cenedlaethau

| |
|---|
| 2a. Ydych chi wedi asesu dosbarthiad dros amser gostau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol eich cynnig? Gellir cynnwys yr asesiad hwn yn eich Sylfaen Dystiolaeth neu ei gynnwys fel atodiad. |
| Ydw |
| Mae'r asesiad effaith hwn yn cynnwys dadansoddiad costau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol dros gyfnod gwerthuso 10 mlynedd. |

| 2b. Ydych chi wedi dod ar draws unrhyw effeithiau sylweddol y gallant effeithio'n anghyfartal ar genedlaethau'r dyfodol? Os felly, disgrifiwch hwy yn fyr. |
| --- |
| Na |

| Os 'do' oedd eich ateb i 2b. , ydych chi wedi: |
| --- |
| 2c. Hysbysu gweinidogion, lle bo hynny'n briodol? Os felly, rhowch fanylion. |
| Amh. |
| 2d. Cytuno ar gamau lliniaru neu gydbwyso, lle bo hynny'n briodol? Rhowch fanylion. |
| Amh. |

**Cam 2**
3. Pwrpas yr ail gam yw dod â chanlyniadau'r Asesiad o Effaith ynghyd â chanlyniadau cam cyntaf y prawf Datblygu Cynaliadwy. Pwrpas y cwestiynau canlynol yw amlygu'r ansicrwydd o ran y dadansoddiad cost a budd, a'ch helpu i ystyried sut i fwrw ymlaen yng ngoleuni rhagor o dystiolaeth o gam cyntaf y prawf Datblygu Cynaliadwy.

| 3a. Ticiwch y blwch priodol i ddynodi cydbwysedd y costau a'r buddion â gwerth ariannol: | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Cadarnhaol iawn | Lled gadarnhaol | Niwtral, fwy neu lai / cytbwys iawn | Lled negyddol | Negyddol iawn |
| | x | | | |

| 3b. Ticiwch y blwch priodol i ddynodi cydbwysedd y costau a'r buddion heb werth ariannol: | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Cadarnhaol iawn | Lled gadarnhaol | Niwtral, fwy neu lai / cytbwys iawn | Lled negyddol | Negyddol iawn |
| | | x | | |

| 3c. Ticiwch y blwch priodol i ddynodi pa un o'r canlynol sy'n debygol o ddisgrifio orau, rhwng popeth, ganlyniadau cwestiynau 1-3 Datblygu Cynaliadwy: | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Cadarnhaol iawn | Lled gadarnhaol | Niwtral, fwy neu lai / cytbwys iawn | Lled negyddol | Negyddol iawn |
| | | x | | |

| 3d. Ticiwch y blwch priodol i ddynodi pa un o'r canlynol sy'n debygol o ddisgrifio orau, yn gyffredinol, gydbwysedd y costau a'r buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol a'r materion cynaliadwyedd: | | | | |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Cadarnhaol iawn | Lled gadarnhaol | Niwtral, fwy neu lai / cytbwys iawn | Lled negyddol | Negyddol iawn |
| | x | | | |

| 3e. Rhowch eglurhad am ganlyniad olaf 3d, gan esbonio, er enghraifft, sut yr ydych wedi cymharu'r costau a buddion â gwerth ariannol a heb werth ariannol, ac wedi mynd ati i ddatrys unrhyw wrthdaro rhwng y canlyniadau cost a budd a'r canlyniadau Datblygu Cynaliadwy. |
| --- |
| Unig effaith Datblygu Cynaliadwy y polisi yw'r lleihad a fydd i'w weld mewn allyriadau carbon a gynhyrchir gan Ystadau GLlTEM. Mae'n bosib y bydd cynnydd mewn amseroedd teithio i adeiladau llys gwahanol yn mynd yn groes i hyn, ond, mae'n bosibl y caiff hyn ei leihau yn ei dro gan lai o deithiau i ystad llys sydd wedi'i had-drefnu. Bydd effaith lai, ond cadarnhaol, ar y defnydd o ddŵr a'r gwastraff a gynhyrchir mewn adeiladau sy'n cau, er gwaetha'r ffaith y bydd mwy o wastraff yn cael ei gynhyrchu dros dro yng nghyswllt dirywiadau a gwaredu mewn rhai adeiladau. Rhwng popeth, mae'n ymddangos yn briodol cofnodi effaith Datblygu Cynaliadwy 'lled gadarnhaol'. Caiff yr effaith ei hadolygu eto wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. |

## Atodiad B: Effeithiau ar amseroedd teithio yn rhanbarthol

### B1: Effaith Cau Llysoedd yn Llundain

116. O ran y llysoedd y bwriedir eu cau yn Llundain, llysoedd ynadon yw'r rhan fwyaf ohonynt. Mae cyfran y boblogaeth sydd o fewn 60 munud o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i'w llys ynadon agosaf yn gostwng o 97% i 91%.

**Siartiau B.01-B.06: Effaith cau llysoedd Llundain ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**



## B2: Effaith Cau Llysoedd yng Nghanolbarth Lloegr

117. Bydd y newidiadau mwyaf sylweddol yn digwydd i lysoedd ynadon a llysoedd sirol. Yn benodol, o ran llysoedd ynadon, nid yw 6% o'r boblogaeth o fewn 60 munud o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i'r un agosaf erbyn hyn (yn gostwng o 81% i 75%), ac mae 6% o'r boblogaeth yn awr yn fwy na 30 munud o amser gyrru i ffwrdd (yn gostwng o 91% i 85%).


**Siartiau B.07-B.12: Effaith cau llysoedd Canolbarth Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**





## B3: Effaith Cau Llysoedd yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr


118. Mae cyfran y boblogaeth sydd o fewn 60 munud o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i'w llys ynadon dynodedig yn gostwng o 88% i 81%, a'r gyfran sydd o fewn 30 munud o amser gyrru yn gostwng o 92% i 88%.


**Siartiau B.13-B.18: Effaith cau llysoedd Gogledd Ddwyrain Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**




## B4: Effaith Cau Llysoedd  yng Ngogledd Orllewin Lloegr

119. Ar Ogledd Orllewin Lloegr y mae'r cynigion yn cael yr effaith fwyaf ar amseroedd teithio i lysoedd ynadon. Mae 12% o'r boblogaeth fwy na 30 munud o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i ffwrdd erbyn hyn (gostyngiad o 51% i 39%). Ond, mae’r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn dal o fewn 60 munud o deithio (81%). Mae cynnydd mewn amseroedd teithio i lysoedd sirol hefyd, ond yn llai o'i gymharu â’r llysoedd ynadon.


**Siartiau B.19-B.24: Effaith cau llysoedd Gogledd Orllewin Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**



### B5: Effaith Cau Llysoedd yn Ne Ddwyrain Lloegr

120. Yn Ne Ddwyrain Lloegr, mae'r cynlluniau i gau llysoedd yn effeithio ar bob math o lys, ond nid oes cynnydd sylweddol i'r un ohonynt.


**Siartiau B.25-B.30: Effaith cau llysoedd De Ddwyrain Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**





## B6: Effaith Cau Llysoedd yn Ne Orllewin Lloegr


121. Mae'r cynlluniau i gau llysoedd yn Ne Orllewin Lloegr yn effeithio ar yr holl fathau o lys a thribiwnlys a fodelwyd. Fodd bynnag, gan fod y cynlluniau ar gyfer cau wedi'u gwasgaru ar draws yr holl fathau gwahanol o lysoedd yn yr ystad, dim ond cynnydd bychan fydd i amseroedd teithio defnyddwyr yn y rhanbarth hon.


**Siartiau B.31-B.36: Effaith cau llysoedd De Orllewin Lloegr ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**













## B7: Effaith Cau Llysoedd yng Nghymru


122. Bydd cau llysoedd yng Nghymru yn cael effaith fwy, gan fod y llysoedd agosaf wedyn yn bellach i ffwrdd nag y maent mewn sawl rhanbarth arall. Fel y dangosir yn y siartiau isod, mae'r gwahaniaeth hwn yn sylweddol iawn i lysoedd ynadon. Y rheswm am y gostyngiad mewn amseroedd ar gyfer Llysoedd y Goron yw gwaith y goron yn Llysoedd Barn Caerfyrddin yn cael ei drosglwyddo i Lys Sirol ac Ynadon Hwlffordd, sy'n agosach at rai Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is (LSOAs).


**Siartiau B.37-B.42: Effaith cau llysoedd Cymru ar amseroedd teithio yn ôl awdurdodaeth**




## Atodiad C: Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg

### 1. Asesiad o Effaith

Nod ac amcan yr Asesiad o'r Effaith hwn ar y Gymraeg yw gweld a fydd y cynigion ar gyfer cau yn cael effaith andwyol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn llysoedd a thribiwnlysoedd Cymru. Yr egwyddorion arweiniol yng nghyswllt yr asesiad hwn yw cydraddoldeb ieithyddol fel y'i datganir yng Nghynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM a'r ffaith fod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru.

Wrth ddrafftio'r asesiad effaith hwn, ystyriwyd yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a oedd yn cyfeirio'n uniongyrchol at ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM.

Er mwyn asesu effaith cynigion yr ymgynghoriad ar allu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, defnyddiodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru y wybodaeth ganlynol:-

- Data o gyfrifiad 2011 mewn perthynas â siaradwyr Cymraeg ymhob ardal awdurdod lleol;
- Ei restr ei hun o staff sy'n siarad Cymraeg;
- Ei restr ei hun o staff sy'n dysgu Cymraeg;
- Manylion nifer yr ynadon sy'n siarad Cymraeg ymhob un o'r ardaloedd cyfiawnder lleol;
- Ystadegau ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gwrandawiadau llys;
- Contract rheoli pob cyfleuster gyda G4S sydd, ymysg gwasanaethau eraill, yn darparu swyddogion diogelwch y llysoedd; a
- Ei restr ei hun o gyfarpar cyfieithu.

### 2. Y Gofyniad Cyfreithiol

Mae Adran 22(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn darparu fel hyn: Mewn unrhyw achos cyfreithiol yng Nghymru gall yr iaith Gymraeg gael ei siarad gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno ei defnyddio, yn amodol ar adegau pan fydd yr achos yn cael ei gynnal mewn llys nad yw'n Llys Ynadon bod rhybudd digonol yn cael ei roi ymlaen llaw fel sy'n ofynnol gan reolau llys; ac fe wneir unrhyw ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer cyfieithu, yn unol â hynny.

Mae Adran 5 o Gynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn trafod 'Ymdrin â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith'. Yn berthnasol iawn i'r ymgynghoriad y mae is-adrannau 5.10 Cyfathrebu Wyneb-yn-Wyneb, ac adrannau 5.18 i 5.26, sy'n ymwneud â chynnal achosion cyfreithiol.

Ceir arweiniad ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion llys yn y dogfennau canlynol:-

- Cyfarwyddyd Ymarfer yn ymwneud â defnyddio'r Gymraeg mewn achosion yn y llysoedd sifil yng Nghymru;
- Y Cyfarwyddyd Ymarfer Troseddol Cyfunol;
- Y Protocol ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y llys ynadon.

Mae defnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau llys hefyd yn ddibynnol ar ffactorau y tu hwnt i reolaeth Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Dyma rai enghreifftiau:-

- Cyfreithwyr ar ddyletswydd ddim yn rhoi gwybod am hawl eu cleientiaid i ddefnyddio'r Gymraeg mewn achosion llys;
- Y mae prinder ymarferwyr cyfreithiol Cymraeg mewn rhai rhannau o Gymru;
- Diffyg hyder siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd ffurfiol fel ystafelloedd llys;
- Cyfansoddiad ieithyddol meinciau ynadon;
- Dm capasiti i gynnal gwasanaethau cyfryngu yn y Gymraeg yng Ngogledd Cymru;
- Dim digon o siaradwyr Cymraeg yn y gwasanaethau cymorth i'r llys, cyfryngwyr er enghraifft.

Er mwyn deall yn well y rhwystrau i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau llys, bu Uned Gymraeg Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor fel rhan o raglen ôl-radd Mynediad at Gyrsiau Meistr. Nododd yr ymchwil nifer o ffactorau sy'n dylanwadu ar ddefnydd siaradwyr Cymraeg o'r Gymraeg yn y llys. Roedd y rhain yn ymwneud â hyder, newid codau a ffurfioldeb y llys. Ymysg ffactorau eraill mewn achosion troseddol yw bod y rhan fwyaf o ddatganiadau gan yr heddlu yn cael eu hysgrifennu yn Saesneg, a bod hyn, felly, yn dylanwadu ar y defnydd o'r iaith yn y gwrandawiad.

Roedd yr ymchwil yn cadarnhau canfyddiadau ymchwiliad blaenorol a gynhaliwyd gan Cwmni Iaith yn 2008 ar ran Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru, sef 'Provision of Welsh Language Choice in the North Wales Criminal Justice Sector' a dyma rai o'r casgliadau:-

- Roedd y ddarpariaeth o ddewis o wasanaethau yn Gymraeg neu Saesneg gan asiantaethau ar draws sector Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yn anghyson;
- Mae'r cofrestrau iaith a ddefnyddir gan yr holl asiantaethau yn y sector cyfiawnder ar gyfer cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig yn ffactor pwysig wrth bennu a fydd defnyddwyr gwasanaethau'n dymuno defnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu gyda'r asiantaethau;
- Mae diffyg hyder siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol wrth ymdrin â materion swyddogol drwy gyfrwng y Gymraeg yn ymestyn hefyd i weithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg a staff eraill sy'n siarad Cymraeg ar draws y sector; ac
- Nid yw'r cyhoedd yn gwahaniaethu rhwng y gwahanol asiantaethau cyfiawnder troseddol.

Dylai Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru allu canfod ymlaen llaw a yw unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiad llys, naill ai drwy lenwi ffurflenni Cymraeg mewn achosion sifil, dewisiadau wedi'u cofnodi ymlaen llaw mewn llys ynadon yn cael eu trosglwyddo i Lys y Goron neu'n uniongyrchol drwy gyfarfodydd rheoli achosion. Yn yr achosion hynny mewn llysoedd ynadon sy'n cael eu hanfon i dreial, pennir y dewis iaith drwy lenwi'r ffurflen 'Paratoi ar gyfer treial effeithiol yn y Llys Ynadon'.

Mae pob llys yn arddangos poster yn nodi bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwrandawiadau llys.

## 3. Gallu ieithyddol

Bydd yr asesiad effaith hwn yn ystyried gallu ieithyddol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwrandawiadau llys o safbwynt staff a barnwyr.

### 3.1 Y Farnwriaeth a'r Ynadaeth

Yng nghyswllt yr ynadaeth a phroffil ieithyddol pob mainc, mater i Bwyllgorau Cynghori unigol yw hyn, gan mai'r rhain, yn hytrach na Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, sy'n argymell enwau i'w penodi yn ynadon i'r Arglwydd Ganghellor. Wrth ragweld faint o ynadon i'w recriwtio am gyfnod penodol, dylai Pwyllgorau Cynghori ystyried faint o swyddi gwag ddylai gael eu hysbysebu fel swyddi lle mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hanfodol. Bydd hyn yn dibynnu ar nifer yr ynadon dwyieithog ar y fainc dan sylw ar y pryd ac ar faint o ymddeoliadau a ragwelir. Ar hyn o bryd mae 204 o ynadon sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru. Ceir canran uwch o ynadon Cymraeg eu hiaith yn yr ardaloedd hynny o Gymru lle mae nifer y siaradwyr Cymraeg ar ei uchaf e.e. Gwynedd, Ynys Môn a Sir Gaerfyrddin.

O ran y farnwriaeth broffesiynol, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn hysbysu'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol am unrhyw ofynion yng nghyswllt y Gymraeg pan fydd swyddi gwag yn codi. Mae penderfyniad ynghylch a yw sgiliau ieithyddol Cymraeg yn hanfodol ar gyfer swydd farnwrol yn seiliedig ar leoliad y swydd wag ac ar gyngor gan y Barnwyr Llywyddol, Barnwr Cyswllt yr Adran Deulu a gwybodaeth ystadegol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ei hun ar y defnydd o'r Gymraeg mewn gwrandawiadau llys. Hefyd, mae'r Arglwydd Ganghellor wedi cymeradwyo meini prawf cymhwysedd anstatudol ar gyfer swyddi gwag yng Nghymru sef bod angen i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru fod yn deall neu'n gallu dod i ddeall y drefn gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a'r trefniadau datganoli sy'n bodoli yng Nghymru.

Yng Nghymru ar hyn o bryd mae gennym saith Barnwr Cylchdaith sy'n siarad Cymraeg, tri Dirprwy Farnwr Cylchdaith, saith Barnwr Rhanbarth a 12 Dirprwy Farnwr Rhanbarth. Mae gennym saith Cofiadur sy'n siarad Cymraeg, tri Barnwr Tribiwnlys Cyflogaeth a phum Barnwr Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant.

Mae gan y Coleg Barnwrol Bwyllgor Hyfforddiant Cymraeg sy'n edrych ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ac yn 2014 cynhaliodd seminar dau ddiwrnod ar gyfer aelodau o'r farnwriaeth sy'n siarad Cymraeg i wella'u hyder yn llywyddu dros achosion yn y Gymraeg.

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol hefyd yn paratoi Cynllun iaith Gymraeg am y tro cyntaf. Dyma gydnabyddiaeth bellach fod y gofynion yng nghyswllt penodiadau barnwrol yn wahanol yng Nghymru.

### 3.2 Staff Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM

Ar hyn o bryd, mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru 111 aelod staff sy'n siarad Cymraeg, sef 13% o'r holl weithlu yng Nghymru. Mae ganddo hefyd 22 aelod staff sy'n dysgu Cymraeg, gyda'u gwersi'n cael eu darparu yn y gwaith ac yn cael eu hariannu gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM. Dyma leoliad ein dysgwyr:-

- Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon - un aelod o'r staff gweinyddol ar lefel ganolradd;
- Llys Sifil a Llys Teulu Caernarfon - un aelod o'r staff gweinyddol ar lefel ganolradd;
- Llys Ynadon Llandudno - 2 gynghorydd cyfreithiol ac 1 arweinydd tîm cyfreithiol ar lefel Mynediad;
- Llysoedd Barn yr Wyddgrug – 2 gynghorydd cyfreithiol ar lefel Ganolradd;
- Llys Sirol Castell-nedd – 2 staff gweinyddol ar lefel Sylfaen;
- Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr – 1 cynghorydd cyfreithiol ac un dirprwy glerc ynadon ar lefel Ganolradd;
- Llys Sifil a Llys Teulu y Coed Duon - pump aelod o'r staff gweinyddol ar lefel ganolradd;
- Llys Ynadon Caerdydd – 2 aelod o'r staff gweinyddol ar lefel Sylfaen;
- Canolfan Cyfiawnder Sifil Caerdydd - 2 aelod o'r staff gweinyddol ar lefel ganolradd;
- Llys Ynadon Casnewydd – 1 rheolwr cyfreithiol ar lefel Ganolradd; a
- Tîm Cyllid - y Pennaeth Cyllid ar lefel Ganolradd/Uwch.

Yn ogystal, mae Uned Iaith Gymraeg bwrpasol yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon sy'n gyfrifol am weinyddu'r Cynllun iaith Gymraeg o ddydd i ddydd ac am ddarparu gwasanaeth cyfeithu ysgrifenedig ac ar y pryd i staff a defnyddwyr y llysoedd. Mae gan yr Uned 12 aelod staff dwyieithog ar hyn o bryd gan gynnwys Swyddog Polisi'r Gymraeg a Phennaeth Gwasanaethau Iaith Gymraeg.

Y mae rhwydwaith o 33 o Hyrwyddwyr y Gymraeg ar gael ar gyfer pob llys/swyddfa ledled Cymru a rhan o'u rôl yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn eu swyddfeydd.

Yng nghyswllt rheoli'r gweithlu, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ar hyn o bryd yn diwygio ei ganllawiau i reolwyr recriwtio ar ofynion y Gymraeg; sicrhau bod sgiliau yn y Gymraeg yn rhan o'r drafodaeth mewn cyfarfodydd Newid y Gweithlu; ac ystyried sgiliau Cymraeg wrth gymeradwyo, neu fel arall, geisiadau gan staff i adael o dan unrhyw gynlluniau Ymadael yn Gynnar Gwirfoddol posibl yn y dyfodol.

Bydd y sgiliau ieithyddol o fewn y llysoedd a restrir fel rhan o'r ymgynghoriad yn cael sylw yn unigol yn y naratif ar gyfer pob llys isod.

## 4. Dadansoddiad fesul Llys

Yn y dadansoddiad sy'n dilyn, bydd y cyfeiriadau at Gyfrifiad 2011 yn cyfeirio at ganrannau'r bobl yn ardaloedd yr awdurdodau lleol a gofnodir fel pobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Wrth ystyried effaith y cau posibl ar y Gymraeg, tybir ar hyn o bryd y bydd pob aelod staff yn symud i'r llysoedd derbyn sy'n cael eu henwi.

Yn olaf, bydd y dadansoddiad yn cyfeirio at y nifer presennol o ynadon sy'n siarad Cymraeg ar bob mainc. Os cymeradwyir y cynigion ar gyfer cau, bydd yn rhaid ystyried y cwestiwn o uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol. Ni all yr asesiad hwn roi sylwadau ymlaen llaw ar ganlyniad unrhyw ymgynghori o'r fath. Ond, bydd gostyngiad yn nifer yr Ardaloedd Cyfiawnder Lleol, ac felly yn y meinciau, yn cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ynadaeth, gan y bydd cronfa fwy o ynadon sy'n siarad Cymraeg ar gael mewn Ardaloedd Cyfiawnder Lleol mwy.

### <u>Ynys Môn</u>

#### Cau Llys Ynadon Caergybi a Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni

Yn ôl data o gyfrifiad 2011, mae 57.2% o boblogaeth Ynys Môn yn siarad Cymraeg, gostyngiad 2.9% ers 2001. Mae'r ganran hon gryn dipyn yn uwch na'r ganran ar gyfer Cymru i gyd, sef 19%. Yn ôl Adroddiad Monitro diwethaf Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i Gomisiynydd y Gymraeg, roedd canran y staff Cymraeg yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon yn 82%, sy'n uwch na'r ffigurau cyffredinol yn y cyfrifiad ar gyfer Gwynedd. O fewn y ffigur hwn, mae digon o dywyswyr sy'n siarad Cymraeg, a digon o gynghorwyr cyfreithiol i allu darparu gwasanaeth Cymraeg i ddefnyddwyr llys.

Does dim staff wedi'u lleoli'n barhaus yn Llys Ynadon Caergybi nac yn Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni, ac ar hyn o bryd mae'r ddau lys yn cael eu gweinyddu gan Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon a Llys Sifil a Llys Teulu Caernarfon.

O dan y trefniadau presennol, rhaid i gynghorwyr cyfreithiol Cymraeg o Gaernarfon fynychu gwrandawiadau llys yn Nolgellau a Chaergybi sydd weithiau'n golygu bod yn rhaid defnyddio cynghorwyr cyfreithiol Saesneg o Lys Ynadon Llandudno yn llysoedd Caernarfon. Ar ôl cau'r llysoedd, rhagwelir y bydd yr arfer hwn yn lleihau os nad yn dod i ben.

Yn ystod 2014/15 cafwyd cyfanswm o 72 gwrandawiad yn Llys Ynadon Caergybi lle defnyddiwyd y Gymraeg.

Gweinyddir Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni o Lys Sifil a Llys Teulu Caernarfon. Does dim staff yn gweithio'n barhaus yn y llys, dim ond ar y diwrnodau hynny pan mae'r llys yn eistedd. Y mae naw aelod staff sy'n siarad Cymraeg yn Llys Sifil a Llys Teulu Caernarfon ar hyn o bryd ac un arall yn dysgu Cymraeg ar lefel Ganolraddol.

Yn 2014/15, defnyddiwyd y Gymraeg mewn 19 achos a gynhaliwyd yn Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni. Yn yr un cyfnod, defnyddiwyd y Gymraeg mewn 179 achos yn Llys Sifil a Llys Teulu Caernarfon.

O ran yr ynadaeth, mae 14 ynad sy'n siarad Cymraeg ar Fainc Ynys Môn a 48 ar Fainc Gwynedd.

Does dim offer cyfieithu yn Llys Ynadon Caergybi. Mae system gyfieithu sylfaenol yn Llys Sifil a Llys Teulu Llangefni sy'n gallu cofnodi cyfieithiadau. Gellid symud y system hon i lys arall yn rhwydd petai raid.

Yn olaf, mae gan Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon systemau cyfieithu integredig yn nwy ystafell Llys y Goron ac yn Llys Ynadon 2 er mwyn hwyluso'r gwaith o gyfieithu a recordio tystiolaeth.

## Gwynedd

### Cau Llys Ynadon a Llys y Goron Dolgellau

Yn ôl data o gyfrifiad 2011, roedd 65.4% o boblogaeth Gwynedd yn siarad Cymraeg, gostyngiad 3.6% ers 2001.

Bydd y rhan fwyaf o waith Dolgellau yn symud i Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon lle mae nifer digonol o siaradwyr Cymraeg. Hefyd, mae ein Huned Iaith Gymraeg wedi'i lleoli yn y Ganolfan hon ac mae cyfieithwyr yn rhan o'r tîm hwn. Yn yr achosion hynny lle gwneir penderfyniad ad hoc i ddefnyddio'r Gymraeg, byddwn mewn sefyllfa well i ddarparu cyfieithwyr ar y pryd os bydd achosion Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu clywed mewn un lleoliad. Gall hyn arwain at amseroedd aros is i dystion/diffynyddion.

Yn ystod 2014/15, cofnodwyd 24 o achosion lle defnyddiwyd y Gymraeg yn Llys Ynadon Dolgellau. Nid eisteddodd Llys y Goron Dolgellau o gwbl yn ystod y flwyddyn adrodd.

Does dim offer cyfieithu yn Llys Ynadon Dolgellau. Os bydd angen cyfieithu i'r Gymraeg mewn unrhyw achos, rhaid cael yr offer cyfieithu symudol o Ganolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon.

Does dim staff ar gael yn barhaus yn y llys hwn.

### Cyfuno Llys Sifil a Llys Teulu Caernarfon o fewn Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon

Yn yr ymgynghoriad cyfeiriwyd at gyfuno Llys Sifil a Llys Teulu Caernarfon o fewn Canolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon i greu un canolfan aml-awdurdodaeth. Bydd hyn yn canoli rhagor ar yr adnoddau Cymraeg mewn un man, gan gryfhau'r ddarpariaeth gyffredinol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.

O ran yr ynadaeth, mae 14 ynad sy'n siarad Cymraeg ar Fainc Ynys Môn a 48 ar Fainc Gwynedd.

Mae dwy system gyfieithu integredig yn Llys Sifil a Llys Teulu Caernarfon y gellid eu symud i lysoedd eraill. Fel y nodwyd eisoes, mae system gyfieithu gynhwysfawr yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol Caernarfon.

## Sir Ddinbych

### Cau Llys Ynadon (Troseddol) Prestatyn

Ar hyn o bryd, does dim staff wedi'u lleoli'n barhaus yn Llys Ynadon Prestatyn. Gweinyddir gwaith troseddol Prestatyn gan Lys Ynadon Llandudno. Yn ôl data cyfrifiad 2011, roedd 24.6% o boblogaeth Sir Ddinbych a 27.4% o boblogaeth Conwy yn siarad Cymraeg. Felly, y ffigur ar gyfartaledd ar gyfer y ddwy ardal awdurdod lleol ydy 26%. Mae'r cynnig yn nodi y bydd y gwaith o Brestatyn yn cael ei glywed yn Llandudno. Ar hyn o bryd, mae gan Landudno ddau aelod staff sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 18% ac felly islaw'r cyfartaledd ar gyfer y ddwy sir.

O'r ddau sy'n siarad Cymraeg yn Llys Ynadon Llandudno, mae un yn aelod o'r tîm gweinyddol ac mae un yn gynghorydd cyfreithiol. Bydd angen i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ystyried dulliau eraill o sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael yn y llys hwn os na all nifer y staff ar hyn o bryd ddiwallu'r galw.

Yn olaf, mae tri cynghorydd cyfreithiol yn Llandudno yn dysgu Cymraeg ar hyn o bryd, ac yn dod i ddiwedd y cwrs lefel Mynediad.

Yn ystod 2014/15, cofnodwyd un achos ym Mhrestatyn lle roedd gofyniad ynghylch y Gymraeg a chlywyd 15 achos Cymraeg yn Llys Ynadon Llandudno.

Ar hyn o bryd mae 14 ynad sy'n siarad Cymraeg ar Fainc Conwy ac 8 ar Fainc Sir Ddinbych.

Mae system gyfieithu ar gael yn Llys 3 ym Mhrestatyn, y gellir ei defnyddio yn y dyfodol pan na fydd rhagor o waith troseddol ym Mhrestatyn, y gwaith hwnnw i'w ddisodli gan waith teulu a gwaith sifil.

**Wrecsam**

**Cau Canolfan Gwrandawiadau Tribiwnlys Rhyd Broughton**

Mae Tribiwnlys Wrecsam (Rhyd Broughton) yn cynnal gwrandawiadau apêl y Tribiwnlys Nawdd Cymdeithasol a Chynnal Plant ar gyfer Gogledd Cymru. Does dim staff wedi'u lleoli yn y lleoliad hwn. Y mae dau glerc tribiwnlys teithiol sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru, ac mae staff llysoedd sifil a llysoedd teulu sy'n siarad Cymraeg hefyd yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd i fod yn glercod mewn gwrandawiadau tribiwnlys. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru o ran darparu clerc sy'n siarad Cymraeg ar gyfer gwrandawiadau'r tribiwnlys.

Ni chafwyd achosion â gofyniad o ran y Gymraeg yn Wrecsam yn 2014/15. Cofrestrwyd dau achos ym mlwyddyn ariannol 2013/14.

Mae tri aelod staff Cymraeg yn Llys Sifil a Llys Teulu Wrecsam a naw yn Llysoedd Barn yr Wyddgrug.

Does dim system gyfieithu yn Rhyd Broughton.

**Powys**

**Cau Llysoedd Barn Aberhonddu**

Does dim staff wedi'u lleoli yn Aberhonddu. Cyflawnir ei holl swyddogaethau gweinyddol yn Llys Cyfun Merthyr Tudful.

Does dim staff wedi'u lleoli yng Nghanolfan Cyfiawnder Llandrindod. Gweinyddir holl waith y Ganolfan o Ganolfan Cyfun Merthyr Tudful.

Mae gan Lys Cyfun Merthyr Tudful un siaradwr Cymraeg. Ond fel rhan o'r ymgynghoriad, argymhellwyd y gallai staff o Lys Ynadon Pontypridd symud i Ferthyr Tudful. Mae un siaradwr Cymraeg ym Mhontypridd. Petai'r llys yn symud, byddai nifer y siaradwyr Cymraeg yn Llys Cyfun Merthyr Tudful yn cynyddu o un i ddau.

Mae gan Lys Ynadon Abertawe bedwar siaradwr Cymraeg, sef 8% o holl staff y llys.

Yn ystod 2014/15, un achos a gafwyd lle defnyddiwyd y Gymraeg yn Llysoedd Barn Aberhonddu. Ni chafwyd achosion drwy gyfrwng y Gymraeg yn Aberhonddu yn 2013/14. Ym Merthyr Tudful, cafwyd un achos yn Llys y Goron â gofyniad o ran y Gymraeg yn 2014/15. Yn 2013/14, cafwyd chwe achos sifil a dau achos troseddol â gofyniad o ran y Gymraeg.

O ran Llys Ynadon Abertawe yn yr un ddwy flynedd, ni chafwyd dim achos yn y Gymraeg yn 2014/15 ac un yn 2013/14.

Ar hyn o bryd, dim ond un aelod o fainc Brycheiniog a Sir Faesyfed sy'n siarad Cymraeg a chwech ar Fainc Gorllewin Morgannwg.

Mae system gyfieithu hybrid symudol yn Llys Cyfun Merthyr Tudful, ond dim system ar gael yn Aberhonddu.

**Sir Gaerfyrddin**

**Cadw Canolfan Gwrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant**

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd 43.9% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn siarad Cymraeg, gostyngiad 6.4% ers cyfrifiad 2001. Yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru lysoedd yng Nghaerfyddin a Llanelli. Yn y tri llys, mae 33 aelod staff ar gael, gyda chanran y staff sy'n siarad Cymraeg yn 18%.

Ar hyn o bryd un aelod staff o'r chwech aelod sydd yno sy'n siarad Cymraeg yng Nghanolfan Gwrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant.

Yn ystod 2013/14 cafwyd un achos â gofyniad Cymraeg yng Nghanolfan Gwrandawiadau Caerfyrddin ar gyfer gwaith Sifil, Teulu, Tribiwnlys a Phrofiant a dau achos yn 2014/15.

Mae system gyfieithu integredig mewn un ystafell llys y gellir ei symud i leoliad arall os bydd raid.

**Cau Llysoedd Barn Caerfyrddin (Neuadd y Sir)**

Does dim staff yn gweithio yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin a gweinyddir a chefnogir gwaith yr ynadon gan Lys Ynadon Llanelli lle mae pum siaradwr Cymraeg. O ran Llys y Goron Caerfyrddin, ni fydd symud y gwaith i Abertawe yn cael effaith niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg gan y bydd yr holl waith yn cael ei brosesu o hyd yn Llys y Goron Abertawe.

Cofnodir gwrandawiadau yn y Llys Ynadon ar gyfer Caerfyrddin sydd ag elfen o Gymraeg o dan Llanelli/Caerfyrddin. Yn 2013/14 cafwyd naw achos rhwng y ddau lys a naw hefyd yn 2014/15. Un achos a gafwyd yn Llys y Goron Caerfyrddin â gofyniad o ran y Gymraeg yn 2013/14 a dim yn 2014/15.

Does dim system gyfieithu wifredig yng Nghaerfyrddin i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn achosion llys. Mewn gwrandawiadau yn Llys y Goron, rhaid sicrhau bod y cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg yn cael ei recordio rhag ofn y bydd apêl yn y dyfodol. Mae diffyg seilwaith cyfieithu priodol hefyd yn golygu y byddai'n rhaid i'r cyfieithydd eistedd yng nghanol y llys i gyfieithu heb allu manteisio ar ffrwd sain yn syth o ficroffon y llys i glustffonau caeedig yn unol â'r model a argymhellir ar gyfer cyfieithu o'r Gymraeg. Mae'r seilwaith hwn ar gael yn ystafell Llys y Goron 1 yn Abertawe,

## Abertawe

**Cyfuno Neuadd y Ddinas, o fewn Llys y Goron yn Abertawe**

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd nifer y boblogaeth a oedd yn siarad Cymraeg yn ardal awdurdod lleol Abertawe yn 11.4%. Ar hyn o bryd mae dau siaradwr Cymraeg ar staff Llys y Goron Abertawe, sef canran o 8%. Mae hyn ychydig yn llai na'r ganran o 11.4% ar gyfer ardal Awdurdod Lleol Abertawe.

Ni fydd y cynnig hwn yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg gan fod unrhyw achos â gofyniad o ran y Gymraeg yn Abertawe yn cael ei restru i'w gynnal yn Ystafell Llys y Goron 1 gan fod system gyfieithu ar gael yn y llys hwn.

Yn ystod 2013/14, cynhaliwyd pump achos yn Llys y Goron Abertawe a oedd â gofyniad o ran y Gymraeg a chwech yn 2014/15.

## Castell-nedd a Phort Talbot

Cau Llys Sifil a Llys Teulu Castell-nedd a Phort Talbot

Yn ôl cyfrifiad 2011, roedd nifer y boblogaeth a oedd yn siarad Cymraeg yn ardal awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot yn 15.3%. Ar hyn o bryd y mae dau aelod staff yn dysgu Cymraeg ar lefel Sylfaen yn y llys. Ni chafwyd achosion yn 2013/14 nac yn 2014/15 â gofyniad iaith Gymraeg yn y llys hwn. Disgwylir y bydd staff Llys Sifil a Llys Teulu Castell-nedd yn symud i Port Talbot, ond byddwn yn ddibynnol ar ddau aelod staff nad yw eu sgiliau yn y Gymraeg yn dda iawn yn y llys hwn. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn cydnabod y byddai'n ddoeth yn y tymor canolig i'r hirdymor i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg yn y llys hwn.

Does dim system gyfieithu yng Nghastell-nedd, ac os ceir cais am gyfieithu, byddai'n rhaid defnyddio'r offer cyfieithu symudol sydd gan ystad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru.

## Pen-y-bont ar Ogwr

**Cau Llysoedd Barn Pen-y-bont ar Ogwr**

Fel ardal awdurdod lleol, mae poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr sy'n siarad Cymraeg yn 9.7%. Ar hyn o bryd, mae yma un aelod staff sy'n siarad Cymraeg. Y mae yma hefyd un cynghorydd cyfreithiol yn dysgu Cymraeg ar lefel Ganolradd.

Mae'n debyg y bydd staff y llys ynadon yn symud i Lys Ynadon Caerdydd, a fydd yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y llys hwnnw.

Ni fydd symud gwaith sifil a gwaith teulu i Bort Talbot yn cael effaith andwyol ar ein gallu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg oherwydd bydd gwaith Llys Sifil a Llys Teulu Castell-nedd hefyd yn symud i Ganolfan Cyfiawnder Port Talbot. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn rhagweld y bydd y ddau sy'n dysgu hefyd yn symud i Bort Talbot.

Yn ystod 2013/14 a 2014/15, ni chafodd dim achosion eu cofnodi â gofyniad o ran y Gymraeg ar ochr sifil a theulu na troseddol y busnes.

Ni chafwyd dim achosion â gofyniad o ran y Gymraeg yn llys ynadon na llys sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod 2013/14 na 2014/15.

Dim ond un ynad Cymraeg sydd ar Fainc Castellnewydd ac Ogwr.

Does dim system gyfieithu ym Mhen-y-bont ar Ogwr a phe cyfyd cais am gyfieithu byddai'n rhaid defnyddio offer cyfieithu symudol o leoliadau eraill.

**<u>Rhondda Cynon Taf</u>**

**Cau Llys Ynadon Pontypridd**

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf yn 12.3%, ychydig yn llai na'r ganran o 12.5% yn 2001. Yn y llys ynadon, mae gennym 15 aelod staff ar hyn o bryd, ac un ohonynt sy'n siarad Cymraeg. Mae'r cynnig yn cynnwys trosglwyddo'r gwaith i Ferthyr Tudful ac mae'n bosibl y bydd y siaradwr Cymraeg yn trosglwyddo gyda'r gwaith, a fydd yn ei dro yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i ddau ym Merthyr Tudful.

Ni chafwyd dim achosion â gofyniad o ran y Gymraeg yn llys ynadon Pontypridd yn ystod 2013/14 na 2014/15.

Ar hyn o bryd mae pedwar ynad sy'n siarad Cymraeg ar Fainc Cymoedd Morgannwg.

Does dim offer cyfieithu yn Llys Ynadon Pontypridd, ond mae system hybrid yn Llys Cyfun Merthyr Tudful.

## 5. Mynediad at Gyfiawnder

Nodwyd yn yr ymgynghoriad ei hun y gallai fod dulliau eraill o gael mynediad at gyfiawnder yn y dyfodol lle na fydd pobl yn gorfod mynychu'r llys yn gorfforol e.e. Deisebau ysgaru ar-lein a 'Cyflwyno Ple' ar-lein. O ran gwella'r broses o ddigideiddio, mae Swyddogion y Gymraeg yn yr Uned Iaith Gymraeg yn gweithio'n agos gyda thîm diwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i sicrhau bod swyddogaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y platfformau digidol newydd. Mae'r Uned Iaith Gymraeg ar hyn o bryd yn ymwneud â'r gwaith o sicrhau bod modd defnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt y cynlluniau canlynol:

- Newid ffeiliau llys â llaw i ffeiliau digidol a nodi'r dewis iaith;
- Gallu talu dirwy ar-lein yn Gymraeg;
- Mwy o gynnwys Cymraeg ar .gov.uk;
- Y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghyswllt deisebau ysgariad;
- Gweithio gydag awdurdodau'r Heddlu i sicrhau bod dewis iaith unigolion yn cael ei gofnodi ar y pwynt mynediad yng nghyswllt achosion troseddol; a
- Cynnwys Cymraeg ar y sianeli digidol newydd fel negeseuon ar twitter a blogiau allanol

Enghraifft ddiweddar o ymrwymiad Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i ddarparu'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg ar lwyfannau digidol yw'r platfform Cymraeg sydd ar gael ar gyfer 'Pledio' ar-lein. Mae gan yr Uned Iaith Gymraeg hefyd brofiad o weithio gyda rhaglenni amser real ar y we fel Transifex er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu cyflym ar gyfer llwyfannau TG sy'n newid yn gyflym.

## 6. Casgliad

O ran gallu'r sefydliad i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn credu y bydd lleoli siaradwyr Cymraeg ac ynadon mewn llai o lysoedd yn tueddu i wella'i allu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg yn hytrach na'i lesteirio. Byd y cynigion i gau llysoedd yn ein galluogi i ddefnyddio sgiliau Cymraeg prin yn fwy hyblyg.

Bydd cael llai o lysoedd hefyd yn galluogi Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru i ddefnyddio'i ddarpariaethau cyfieithu yn well o ran ei gyfarpar e.e. cais diweddar i gynnal treial â gofyniad o ran y Gymraeg

yn Llys y Goron Caerfyrddin - roedd rhaid rhestru'r achos yn Llys y Goron Abertawe oherwydd diffyg seilwaith cyfieithu yn y llys yng Nghaerfyrddin.

Wrth lunio'r asesiad effaith hwn, ystyriwyd ''Cymreictod' yng nghyswllt lleoliad rhai o'r llysoedd mewn ardaloedd sy'n cael eu hystyried yn fwy 'Cymraeg' nag eraill e.e. Dolgellau, Caerfyrddin. Gellid dadlau bod gwasanaeth Cymraeg yn ddisgwyliedig yn y llysoedd hynny ac y byddai cynnig ieithyddol 'gweithredol' yn cael ei ddarparu i ddefnyddwyr y llys. Ond, un rhan yn unig yw'r llysoedd/tribiwnlysoedd o fewn jig-so cyfiawnder ehangach ac mae profiad defnyddiwr llys o ran iaith yn ddibynnol ar ffactorau eraill fel y nodwyd yn flaenorol. Mewn achosion yn Llys y Goron does dim hawl i gael rheithgor dwyieithog a, hyd yn oed mewn ardaloedd fel Caernarfon, gall hyn atal siaradwr Cymraeg rhag defnyddio'r iaith gan y byddai'n cyflwyno'r dimensiwn ychwanegol o gyfathrebu drwy gyfieithydd.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn cydnabod y gallai cau llysoedd mewn ardaloedd lle mae canran y siaradwyr Cymru oddeutu 50% neu fwy, a lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n rheolaidd yn y llysoedd hynny (e.e. Dolgellau), gael ei ystyried yn gam a fyddai'n cael mwy o effaith ar ddefnyddwyr llys sy'n siarad Cymraeg nag ar y rheini a'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt. Felly, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn gwneud rhagor o waith i ymchwilio i ddarpariaethau eraill ar Ynys Môn, Dolgellau, Aberhonddu a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn cydnabod bod angen mwy o ddarpariaeth Gymraeg yn rhai o'i swyddfeydd o ran staff a bydd yn rhoi sylw i hyn drwy'r broses Dysgu a Datblygu neu drwy adleoli'r staff Cymraeg presennol. Dyma'r llysoedd hyn:

- Canolfan Cyfiawnder Port Talbot – dim siaradwyr Cymraeg a'r posibilrwydd o adleoli dau aelod staff sy'n dysgu Cymraeg
- Llys Cyfun Merthyr – un siaradwr Cymraeg a'r posibilrwydd o adleoli un aelod staff o Lys Ynadon Pontypridd
- Llys Ynadon Llandudno – un aelod o'r staff gweinyddol yn siarad Cymraeg

Dros y misoedd nesaf, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn gobeithio ailgyhoeddi ei ganllawiau i'w reolwyr yng nghyswllt recriwtio a dynodi swyddi lle mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol.

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn credu y bydd y newidiadau o fudd i'w bartneriaid yn y sector cyfiawnder drwy ei gwneud yn haws, er enghraifft, i Wasanaeth Erlyn y Goron anfon erlynwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer achosion yng Nghaernarfon, gan y bydd llai o lysoedd iddynt eu gwasanaethu.

## 7. Monitro a Threfniadau Adolygu

Bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn monitro'r effeithiau drwy'r dulliau canlynol:

- dadansoddi gwybodaeth o unrhyw arolygon gwasanaeth i gwsmeriaid a allai gael eu cynnal;
- adborth gan gwsmeriaid a chwynion a nodir ar ein system 'Café';
- adborth gan ein staff ein hunain a Hyrwyddwyr y Gymraeg;
- monitro'r defnydd o'r Gymraeg mewn gwrandawiadau llys yn fisol;
- cyfarfodydd rheolaidd â Barnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg; a
- adroddiadau amserol ar y ddarpariaeth Gymraeg i Dîm Rheoli Cymru.

Bydd yr Asesiad Effaith yn cael ei adolygu'n rheolaidd tra bydd y cynigion yn cael eu rhoi ar waith.

**Atodiad D: Cynllun Adolygu ar ôl Gweithredu**

**Sail yr adolygiad:**
Gwerthuso a yw'r cynigion wedi'u gweithredu'n llwyddiannus, ac effaith hyn ar ddarparu gwasanaethau llys a thribiwnlys yng Nghymru a Lloegr.

**Amcan yr adolygiad:**
Bydd yr Adolygiad ar ôl Gweithredu yn asesu effaith lleihau'r ystad llysoedd a thribiwnlysoedd ar gostau gweithredu GLITEM, a pherfformiad llysoedd a thribiwnlysoedd, ac o ganlyniad i hynny yr effaith ar ddefnyddwyr llys, partneriaid a rhanddeiliaid yn y system cyfiawnder troseddol ehangach.

**Sail resymegol a dull yr adolygiad:**
Bydd yr Adolygiad ar ôl Gweithredu yn adolygu perfformiad GLITEM, gan ddefnyddio cynnyrch gwybodaeth reoli cadarn er mwyn deall effaith y newidiadau ar y ddarpariaeth llysoedd a thribiwnlysoedd.

Caiff yr adolygiad ei gynnal yn Chwarter 4 2016/17 er mwyn sicrhau y ceir asesiad effeithiol o effaith y darpariaethau yng nghyswllt y llysoedd. Disgwylir i hyn ddigwydd dair blynedd ar ôl i'r llysoedd cyntaf gael eu cau.

Amcan y cynigion yw ail-lunio ystad GLITEM yn unol â'r Egwyddorion Ystadau Cenedlaethol a gyhoeddwyd yn y ddogfen ymgynghori. Nod yr egwyddorion hyn yw darparu ystad effeithlon a hyblyg sy'n bodloni gofynion presennol GLITEM, a'i ofynion yn y dyfodol.

**Llinell sylfaen:**
Llinell sylfaen perfformiad cyn gweithredu fydd y data llwyth gwaith a pherfformiad a gynhwyswyd yn Adroddiad Blynyddol 2012/13 GLITEM.

**Meini prawf llwyddiant:**
Amcan y cynigion yw lleihau costau gweithredu GLITEM yn unol â'r rhagamcanion yn yr Asesiad Effaith, gan gynnal perfformiad y gwasanaeth i gwsmeriaid ar yr un pryd. Yn dilyn cyflawni'r prosiect, disgwylir i egwyddor yr ystadau cenedlaethol gael ei bodloni, sef cynyddu'r defnydd o'r amser sydd ar gael ar gyfer yr awdurdodaethau troseddol, a'r sesiynau sydd ar gael yng nghyswllt yr awdurdodaethau Sifil, Teulu a Thribiwnlysoedd, i o leiaf 80%.

**Trefniadau monitro gwybodaeth:**
Defnyddir dulliau adrodd ar berfformiad a rheoliadau ariannol sefydledig i fesur a yw costau wedi lleihau yn unol â'r rhagamcanion yn yr Asesiad Effaith, a bod perfformiad y gwasanaeth i gwsmeriaid wedi'i gynnal hefyd.